Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

2008-2011

Mawrth 2008

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, a'r Gweinidog Gwladol 4
Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol 5
11. Blaenoriaethau Strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder 6
1.2 Ein cyfrifoldebau cyfreithiol 7
1.3 Diffinio Anabledd 7
1.4 Cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol 7
1.5 Cyflawni'r Ddyletswydd Benodol 7
1.6 Atebolrwydd 8
Adran 2 – Cynnwys Pobl Anabl 10
2.2 Grwpiau Ffocws 10
2.3 Parhau i Gynnwys Pobl Anabl 11
Adran 3 – Asesu'r Effaith 11
3.1 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 11
Adran 4 - Y Cynlluniau Gweithredu 13
Adran 5 - Casglu Gwybodaeth 14
5.1 Gwella Bylchau Gwybodaeth 14
5.2 Prosesau Casglu Gwybodaeth 14
5.3 Cynnwys Pobl Anabl 14
5.4 Arolygon Staff 15
5.5 Tystiolaeth o Ymchwil Berthnasol 17
Adroddiad Iechyd Meddwl ac Allgáu Cymdeithasol (2004) http://www.cabinetoffice.gov.uk/upload/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/social_exclusion_task_force/publications_1997_to_2006/mh_summary.pdf . 17
Salwch meddwl ac Anabledd Dysgu yn y System Cyfiawnder Troseddol .. 18
5.6 Proffil Staff 19
5.7. Proffil Anabledd 19
5.8 Recriwtio a Dethol 21
5.9 Rheoli Perfformiad 22
5.10 Dyrchafu (gan gynnwys dyrchafu dros dro) 22
5.11 Trosiant Staff ac Ymddiswyddo 22
5.12 Tâl a Buddiannau 22
5.13 Bwlio ac Aflonyddu 23
5.14 Rheoli Presenoldeb 23
Adran 6 – Defnyddio'r Wybodaeth a Gasglwyd 25
6.1 Canfod Blaenoriaethau Anabledd Allweddol 25
6.2 Blaenoriaeth Allweddol Un: Hygyrchedd 25
6.3 Mynediad i Gyfiawnder 25
6.4 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Gyfiawnder 26
6.5 Mynediad i Adeiladau 27
6.6 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Adeiladau 28
6.7 Mynediad i Wybodaeth 29
6.8 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Wybodaeth 30
6.9 Blaenoriaeth Allweddol Dau: Ymgysylltu â'r Gymuned 32
6.10 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Ymgysylltiad â'r Gymuned 32

6.11 Blaenoriaeth Allweddol Tri: Hyfforddiant 34
6.12 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Hyfforddiant 34
Adran 7 – Dylanwadu ar Ganlyniadau 38
7.1 Caffael 38
7.2 Partneriaethau gyda Sefydliadau Allanol 38
7.3 Mynediad y Cyhoedd i Wybodaeth 39
7.4 Cynrychioli a Gwasanaethu'r Boblogaeth a Wasanaethwn 39
7.5 Cymryd Rhan Mewn Bywyd Cyhoeddus 40
7.6 Anabledd a'r Ynadaeth 41
7.7 Anabledd a'r Farnwriaeth 41
Adran 8 – Cyhoeddi'r Cynllun a Monitro'r Cynlluniau Gweithredu 42
8.1 Cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd 42
8.2 Monitro'r Cynllun Gweithredu 42
8.3 Cwynion am y Cynllun 43
Atodiad A: Diffinio Anabledd 45
Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod y diffiniad o anabledd a geir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sef. **..... 45**
Atodiad B: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Cynllun Gweithredu Gofyniad Sylfaenol 46
Atodiad C: Adborth Grwpiau Ffocws 49
Atodiad D: Rhestr o Randdeiliaid Anabledd 51
Rhan annatod o'n cynlluniau gweithredu yn y dyfodol yw sicrhau ein bod yn parhau i gynnwys ac ymgynghori â phobl anabl i'n helpu ni i barhau i wella'r Cynllun. Rhan o'n gwaith parhaus fydd mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl anabl sydd wedi cyfrannu yn ogystal â phobl newydd er mwyn mynd â'r camau gweithredu a nodwyd rhagddynt. **..... 52**
Atodiad E: Asiantaethau, Swyddfeydd Cysylltiedig, Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a Chyrff eraill, a'u Dyletswyddau Statudol 53
Atodiad F: Geirfa 64

Adendwm 1: Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Adendwm 2: Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Meysydd Busnes

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, a'r Gweinidog Gwladol

Rydym wrth ein bodd ein bod yn cael cyflwyno'r **Cynllun Cydraddoldeb Anabledd** cyntaf ers creu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y llynedd.

Cafodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei chreu ar 9 Mai 2007; gan ddod â'r cyfrifoldeb dros y system gyfiawnder ynghyd dan arweiniad un adran.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi'r cyfle i sicrhau'n well bod y system gyfiawnder yn gweithio ar gyfer y cyhoedd a wasanaetha. Mae ei gwaith yn amrywiol; o gefnogi democratiaeth rymus i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol; o warantu hawliau a hyrwyddo cyfrifoldebau i helpu i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu.

Mae'r egwyddorion yn y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn sail i bopeth a wnawn fel adran, gan eu bod yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn gosod allan sut rydym yn bwriadu sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn ag ysbryd ac â llythyren y ddeddf wrth gyflawni cydraddoldeb anabledd ar gyfer dinasyddion ac ein staff.

Wrth baratoi a gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd rydym wedi ceisio ei ddefnyddio fel cyfle i wthio'r agenda gwasanaeth cyhoeddus yn ei blaen, gan ailddatgan pwysigrwydd darparu mynediad cyfartal i bawb i'n gwasanaethau. Rydym yn llawn gydnabod ein cyfrifoldeb i fod yn esiampl o'r arfer gorau ar draws Whitehall a gweithredu'n briodol ym mhopeth a wnawn.

Mae'r Cynllun, yr Adolygiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu wedi cael eu datblygu gyda chyfraniad pobl anabl drwy grwpiau ffocws ac ymgynghori. Bydd y grwpiau hyn yn parhau i chwarae rhan weithredol a phwysig wrth fynd â'r Cynllun ymlaen drwy gyflwyno sylwadau a phrofiadau gweithwyr anabl, arbenigwyr allanol a defnyddwyr ein gwasanaethau.

Mae cydraddoldeb wrth galon popeth rydym yn ei ddarparu fel adran ac rydym wedi ymrwymo i wreiddio diwylliant o gydraddoldeb drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Drwy'r ffocws hwn gallwn fod yn ffyddiog y byddwn yn gallu diwallu anghenion y cyhoedd a wasanaethwn yn well.

Y Gwir Anrhydeddus Jack Straw AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Michael Wills AS
Gweinidog Gwladol

Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Rwyf wrth fy modd fy mod yn cael cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Anabledd cyntaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y cyfnod 2008-2011.

Disgwylir yn hollol briodol bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn arwain y ffordd yng nghyswllt amrywiaeth ac mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo gwerthoedd ac arferion cymdeithas deg a ddemocrataidd. Fy ngweledigaeth i ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw iddi ennill ei lle fel un o Adrannau mwyaf effeithiol y Llywodraeth yn Whitehall.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn un cyfrwng rydym yn ei ddefnyddio i gyflawni'r nod hwn drwy osod allan ein hymrwymiad i fynd i'r afael â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd a hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r Cynllun yn ategu systemau cynllunio busnes cadarn drwy fod yn glir ynghylch pwy sy'n atebol am beth, a sut bydd perfformiad yn cael ei fesur a'i wella'n gyson ym mhob rhan o'r Weinyddiaeth.

Rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i sicrhau bod cydraddoldeb anabledd wrth galon popeth y byddwn yn ceisio'i gyflawni a sut rydym yn trin ein staff a'r cyhoedd. Ac rwyf yn cydnabod pa mor bwysig yw hyn, i'n staff ac i bawb sy'n disgwyl i'n gwasanaethau ddiwallu amrywiaeth eu hanghenion.

Mae Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn atebol am gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun. Bydd fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a minnau'n adolygu'r Cynllun yn ffurfiol bob 12 mis i olrhain y cynnydd ar gyflawniadau a sicrhau bod y Cynllun yn aros yn ganolog i waith y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ond hefyd mae'n ddogfen "fyw" y bydd angen ei hadolygu a'i gwella'n rheolaidd.

Nid oes dim lle ar gyfer unrhyw ragfarn na gwahaniaethu anghyfreithlon yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig ac ystyried natur ein busnes craidd. Bydd y Cynllun hwn a'i gynllun gweithredu'n ein helpu i wireddu ein hamcanion cydraddoldeb anabledd fel cyflogwyr, fel gweithwyr, fel rheolwyr, fel llunwyr polisïau ac fel darparwyr gwasanaethau.

Mae fy nghydweithwyr a minnau'n ffyddiog y bydd y Cynllun hwn yn ein helpu i wynebu ein heriau'n hyderus.

Suma Chakrabarti
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adran 1 – Cyflwyno'r Cynllun

Y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn yw'r cyntaf ers ffurfio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder newydd, ac mae'n gosod allan y dull gweithredu y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei ddefnyddio i sicrhau ei bod yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol i gyflawni cydraddoldeb i staff anabl a defnyddwyr anabl amryfal wasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn croesawu'r ddyletswydd gadarnhaol, a sefydlwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, sef rhoi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon yn erbyn pobl anabl, a hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu mynd ymhellach na chydymffurfio. Bydd yn ceisio gwella hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn cynhyrchu canlyniadau teg ar gyfer ei holl ddefnyddwyr gwasanaeth anabl. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gan ei staff anabl hyder ac ymddiriedaeth yn y sefydliad a'u bod yn gallu cymryd rhan lawn wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn datblygiad staff.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn croesawu arsylwadau'r hen Gomisiwn Hawliau Anabledd ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a Chynllun Cydraddoldeb Anabledd y Swyddfa Gartref, ac mae wedi ceisio cynnwys elfennau priodol o'r arsylwadau hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Anabledd y Weinyddiaeth Gyfiawnder newydd.

11. Blaenoriaethau Strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

1.1.1 Dyma weledigaeth strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- Cefnogi democratiaeth rymus lle gall pawb ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Cefnogi cyflawni cyfiawnder yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Helpu i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu.
- Gweithio i greu diwylliant o hawliau a chyfrifoldebau er mwyn gallu cyflawni'r naill a'r llall yn effeithiol.
- Helpu i osgoi a datrys anghydfodau sifil a theulu.

1.1.2 Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer anabledd yw erbyn 2025, dylai pobl anabl ym Mhrydain gael cyfleoedd a dewisiadau llawn i wella ansawdd eu bywyd, a byddant yn cael eu parchu a'u cynnwys fel aelodau cyfartal o gymdeithas. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi'r nod hwn yn llawn y bydd yn sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn cael ei integreiddio yn ei blaenoriaethau strategol, gyda chynlluniau gweithredu'n gosod allan sut y cyflawnir hyn.

1.2 Ein cyfrifoldebau cyfreithiol

1.2.1 Fel awdurdod cyhoeddus, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ddyletswyddau cydraddoldeb anabledd sy'n deillio o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cyhoeddi Cod Ymarfer sy'n amlinellu'r dyletswyddau newydd hyn, gan gynnwys y ddyletswydd benodol a chyffredinol y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhwym wrthynt. Mae'r cyfarwyddyd wedi cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

1.2.2 Ar 1 Hydref 2007, disodlodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd wedi etifeddu'r cyfrifoldeb dros sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau cydraddoldeb statudol gan y tri chomisiwn blaenorol. Gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyhoeddi rhybuddion peidio â chydymffurfio pan fydd yn pennu nad yw sefydliadau wedi cydymffurfio 'u dyletswyddau cydraddoldeb deddfwriaethol.

1.3 Diffinio Anabledd

1.3.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod y diffiniad o anabledd a geir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ac mae'r diffiniad hwn wedi'i amlinellu yn Atodiad A.

1.4 Cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol

1.4.1 Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd fel y'i hamlinellir yn Adran 49A y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – y cyfeirir ati wedyn fel 'y ddyletswydd gyffredinol' – yn dweud y bydd corff sy'n rhwym wrth y ddyletswydd gyffredinol yn ystyried yr angen i:

- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill;
- Dileu gwahaniaethu sydd yn anghyfreithlon dan y Ddeddf.
- Dileu aflonyddu pobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau;
- Hybu agweddau cadarnhaol at bobl anabl mewn bywyd cyhoeddus.
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu eu trin yn fwy ffafriol na phobl eraill.

1.4.2 Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhwym wrth y ddyletswydd gyffredinol hon, ac mae'n gweithio i brif ffrydio cydraddoldeb anabledd i'w holl feysydd busnes, polisïau, penderfyniadau a gweithgareddau.

1.5 Cyflawni'r Ddyletswydd Benodol

1.5.1 I gefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, mae gofynion statudol penodol (dyletswyddau) wedi cael eu gosod allan yn **Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus)**

(Dyletswyddau Statudol) 2005 (y cyfeirir atynt wedyn fel y Rheoliadau) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yw craidd y gofynion hyn.

1.5.2 Rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi cynllun sy'n cynnwys[1]:

- Sut mae'r Weinyddiaeth yn bwriadu cyflawni ei rhwymedigaethau dan y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau eraill sy'n berthnasol iddi.
- Sut mae'r Weinyddiaeth yn bwriadu cynnwys pobl anabl wrth ddatblygu ei chynllun.

Datganiad o:

- Y ffordd mae pobl anabl wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun.
- Dulliau'r Weinyddiaeth ar gyfer asesu effaith.
- Y camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd tuag at gyflawni ei ddyletswydd cyffredinol (y 'cynllun gweithredu').
- Trefniadau'r Weinyddiaeth ar gyfer casglu gwybodaeth yng nghyswllt cyflogaeth, a, phan fydd yn briodol, cyflawni ei swyddogaethau.
- Trefniadau'r Weinyddiaeth ar gyfer defnyddio'r wybodaeth a gesglir, yn benodol adolygu effeithiolrwydd ei chynllun gweithredu ac wrth baratoi Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd dilynol.

Ceir hefyd ofyniad Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi Adroddiad Ysgrifennydd Gwladol Anabledd erbyn mis Rhagfyr 2008, a bob 3 blynedd wedi hynny sy'n:

- Rhoi golwg gyffredinol o'r cynnydd tuag at gydraddoldeb anabledd a wneir gan awdurdodau cyhoeddus yn eu sector polisi;
- Gosod allan cynigion ar gyfer cydlynu camau gweithredu gan yr awdurdodau cyhoeddus hynny yn y sector polisi hwnnw i symud ymlaen ymhellach tuag at gydraddoldeb anabledd.

1.6 Atebolrwydd

1.6.1 Mae Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymeradwyo'r Cynllun hwn, ac mae'n bennaf gyfrifol am sicrhau y caiff ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arbenigedd a'r adnoddau angenrheidiol ar gael yn y sefydliad er mwyn rhoi'r Cynllun ar waith yn llwyddiannus.

1.6.2 Caiff y Bwrdd ei gefnogi yn hyn o beth gan yr Is-Adran Amrywiaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n gweithio'n agos gyda'r meysydd busnes i

[1] Caiff y crynodeb hwn o'r dyletswyddau penodol ei osod allan gan yr hen Gomisiwn Hawliau Anabledd yn ei gyhoeddiad yn 2005 *Y Ddyletswydd i Hybu Cydraddoldeb Anabledd.* Mae'r testun llawn ar gael yn Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005.

ddarparu cyngor a chymorth ac sy'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Gweithredu. Yn ogystal â hynny, ceir cyfeiriad strategol gan grŵp newydd, Penaethiaid Strategol Cydraddoldeb, sy'n cynnwys Uwch Weision Sifil o bob rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a byddant yn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws yr Adran newydd.

1.6.3 Bydd y Bwrdd yn adolygu cynnydd y Cynllun yn flynyddol, yn ôl y camau gweithredu a'r dangosyddion perthnasol. Bydd adolygiad llawn o'r Cynllun, yn rhoi manylion y cynnydd ac yn nodi'r prif feysydd ar gyfer gweithredu ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i Swyddfeydd Cysylltiedig, yn cael ei gyflawni a'i gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ei gymeradwyo a'i gyhoeddi bob tair blynedd, fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau[2].

1.6.4 Mae Adendwm 1 yn rhoi Adolygiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a Chynllun Cydraddoldeb Anabledd y Swyddfa Gartref (ar ffurf Adroddiad Blynyddol) ac mae'n cynrychioli'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt cydraddoldeb anabledd dros y flwyddyn ddiwethaf.

1.6.5 Adendwm 2 yw'r Cynllun Gweithredu sy'n rhoi rhagolwg dros dair blynedd ar gyfer meysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n adeiladu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r canfyddiadau allweddol ym mhrif gorff y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Mae'n cynnwys y manylion am sut y bydd y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn cael ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf.

1.6.6 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi sefydlu cynllun gweithredu gofyniad sylfaenol, yn amlinellu'n fwy generig yr hyn a ofynnir gan ei holl feysydd busnes. Mae gan bob maes gyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb ac ar gyfer darparu'r wybodaeth briodol i adlewyrchu hyn. Mewn nifer o achosion bydd y cynlluniau gweithredu busnes unigol (yn Adendwm 2) yn rhagori ar y gofynion sylfaenol hyn. Mae'r cynllun gweithredu gofyniad sylfaenol yn Atodiad B.

1.6.7 Mae Uwch Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Is-Adrannau a Phenaethiaid Unedau yn gyfrifol am weithredu'r camau gweithredu fel y'u hamlinellir yn y cynlluniau gweithredu.

[2] Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005, rheoliad 5(1)(a)(b)

Adran 2 – Cynnwys Pobl Anabl

2.1 Ein Dull Gweithredu

2.1.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu bod cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd effeithiol yn golygu ei bod yn rhaid cynnwys pobl anabl yn llawn drwy gydol y broses datblygu; yn wir mae rhwymedigaeth statudol i ni wneud hynny. Roedd hyn ar ffurf grwpiau ffocws, cynadleddau ffôn, ymgynghori ag arbenigwyr a defnyddio data sydd eisoes yn bodoli a gyhoeddwyd gan sefydliadau (er enghraifft Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion), yn ogystal â chyflawni ein dadansoddiad ystadegol ein hunain.

2.1.2 Rydym wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd gan bobl anabl o Gynlluniau'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Swyddfa Gartref yn ogystal â gwybodaeth newydd a gasglwyd wrth ddatblygu Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gyfrannu at y Cynllun hwn ac i wella ein gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro'n rheolaidd.

2.1.3 Nod yr ymchwil hwn yw deall anghenion pob grŵp mewn cymdeithas, yn enwedig y rheini a all fod yn agored i niwed. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i sefydlu'r prif bryderon a nodwyd gan bobl anabl sy'n byw yn y gymuned, ac wedyn gyda'u cyfraniad nhw, datblygu polisïau i fynd i'r afael â'r rheini.

2.1.4 Yn fewnol, defnyddiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o fecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl anabl, gan gynnwys defnyddio Ymgynghorydd Anabledd Adrannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Rhwydwaith Staff ar Anabledd wrth ddatblygu a drafftio'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Gweithredu.

2.2 Grwpiau Ffocws

2.2.1 Fel rhan allweddol o gynnwys pobl anabl wrth ddatblygu'r Cynllun, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfres o grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau dros y ffôn gyda rhanddeiliaid anabl.

2.2.2 Dyrannwyd cyllideb ar gyfer y prosiect cynnwys er mwyn talu am gostau teithio ac addasiadau rhesymol ar gyfer y rheini a oedd yn bresennol. Roedd palanteipydd hefyd ar gael ar gyfer pob un o'r sesiynau grwpiau ffocws.

2.2.3 Cynhaliwyd tri grŵp ffocws, pob un yn cynnwys rhwng naw a deuddeg o bobl. Aethom ati i geisio cael gafael ar bobl a mudiadau lleol o gymunedau lleol yn ogystal â defnyddio cysylltiadau rhanddeiliaid a oedd yn cael eu cadw'n ganolog yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd pob grŵp ffocws yn cynrychioli amrywiaeth o anableddau ac roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau anabledd ac unigolion a ddaeth ar eu liwt eu hunain.

2.2.4 Roedd unigolion a gafodd wahoddiad ond na allent ddod hefyd yn cael y cyfle i drafod eu sylwadau mewn sgwrs dros y ffôn. Cynhaliwyd deuddeg

sgwrs o'r fath, a gwnaethpwyd pob ymdrech i adlewyrchu'r pynciau a drafodwyd yn y grwpiau ffocws.

2.2.5 Cafodd pawb a oedd yn cymryd rhan wybodaeth am y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r prosiect Cynllun Cydraddoldeb Anabledd cyn y cyfarfodydd a'r sgyrsiau.

2.2.6 Diben y grwpiau oedd cynnig dull ansoddol o gael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu rhanddeiliaid anabl a chynnig dull o alluogi pobl anabl i ysgwyddo swyddogaeth sy'n fwy gweithredol yn y broses o gasglu data. (Edrychwch ar Adran 5 i gael gwybod mwy am y broses o gasglu gwybodaeth.)

2.2.7 Mae'r arsylwadau a wnaed gan y grwpiau ffocws ar gael yn Atodiad C, ac maent wedi cael eu defnyddio i gyfrannu at y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cynllun hwn a amlinellir yn adran 6.

2.3 Parhau i Gynnwys Pobl Anabl

2.3.1 Bwriedir i'r grwpiau ffocws barhau yn y dyfodol ac y bydd eu niferoedd yn tyfu er mwyn parhau i gyfrannu at flaenoriaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng nghyswllt pobl anabl.

2.3.2 Yn ogystal â hynny, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried creu Grŵp Cyfeirio Anabledd, a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol a allai ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i rhannau busnes ar flaenoriaethau ar gyfer pobl anabl y mae swyddogaethau, polisïau a gwasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn effeithio arnynt. Gallai'r grŵp hwn hefyd gyfrannu at ddatblygu Adroddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Anabledd (gweler 1.5.1 uchod). Bydd y syniad hwn yn datblygu hyn yn ystod oes y Cynllun.

Adran 3 – Asesu'r Effaith

3.1 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

3.1.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn croesawu arsylwadau'r hen Gomisiwn Hawliau Anabledd ynghylch defnyddio Asesiadau o'r Effaith yn ei adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol[3]. Yn dilyn yr arsylwadau hyn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chyngor ynghylch defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn effeithiol.

3.1.2 Er mwyn sicrhau bod y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb anabledd (a ffrydiau amrywiaeth eraill) wedi'u gwreiddio yn natblygiad deddfwriaeth, polisïau a gwasanaethau, rhaid asesu effaith pob polisi a swyddogaeth newydd.

---

[3] Ysgrifennodd y Comisiwn Hawliau Anabledd at Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar 22 Mawrth 2007 i gyflwyno adolygiad y Comisiwn o Gynllun Anabledd 2006 yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

3.1.3 Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu fframwaith Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyson ar gyfer ei ddefnyddio ar draws y busnes a fydd yn sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn systematig.

3.1.4 Mae 'pecynnau cymorth' presennol Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ddefnyddiwyd gan yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (pecyn cymorth y Swyddfa Gartref), a phecyn cymorth y Gwasanaeth Carchardai ar wahân, yn parhau i gael eu defnyddio nes y caiff fersiwn newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei roi ar waith yn ystod haf 2008.

3.1.5 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn asesu effaith ei holl swyddogaethau a pholisïau cyfredol erbyn 2010 ac mae'r Is-Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn gweithio gyda meysydd busnes i lunio amserlen gweithredu erbyn hydref 2008.

3.1.6 Yr uwch reolwyr sy'n gyfrifol bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau, a rhaid iddynt gytuno ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb angenrheidiol cyn gallu rhoi deddfwriaeth, polisïau, prosiectau neu wasanaethau newydd ar waith. Yn yr un modd, nid oes modd cyflwyno prosiectau a rhaglenni busnes newydd hanfodol gyda swyddfa rhaglen ganolog y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn cyflawni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol.

3.1.7 Er mis Rhagfyr 2007, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi crynodebau o holl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ei gwefan ac mae fformatau amgen ar gael ar gais. I gael rhestr ddiweddar o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi cael eu cwblhau, ewch i http://www.justice.gov.uk/publications/equality-impact-assess.htm. Ar ben hynny, mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gael yn http://www.hmprisonservice.gov.uk/

Enghraifft o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn iawn

Mae'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol wedi ffurfio gweithgor i ddylunio fframwaith asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder a fydd, yn ogystal ag asesu effeithiau andwyol posibl polisïau penodol, hefyd yn cynghori staff i ystyried cyfleoedd a gollwyd i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd ac unrhyw effeithiau cysylltiedig posibl. Ymgynghorir â staff o bob rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys y rheini ag anableddau a chânt eu cynnwys yn y gwaith o'i ddylunio. Yn benodol, bydd y fforymau a'r rhwydweithiau staff, gan gynnwys y Rhwydwaith Anabledd, rheolwyr amrywiaeth rhanbarthol a'r cysylltiadau amrywiaeth o bob rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael gwahoddiad i gyfrannu at y gwaith dylunio. Ymgynghorir â'r Ochr Undebau Llafur Adrannol hefyd. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu cyhoeddi fframwaith asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob maes busnes yn nes ymlaen eleni.

Adran 4 - Y Cynlluniau Gweithredu

Mae'r Cynlluniau Gweithredu ar gyfer meysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Adendwm 2 y ddogfen hon. Mae'r cynlluniau'n amlinellu dull gweithredu manwl y Weinyddiaeth i sicrhau ei bod yn cyflawni ei dyletswyddau o ran gweithredu ei Chynllun Cydraddoldeb Anabledd. Roedd pob maes busnes yn ymwneud yn llawn â'r gwaith o ddrafftio a chytuno ar y cynlluniau gweithredu hyn ac maent wedi ymrwymo'n llawn i'w cyflawni.

Adran 5 - Casglu Gwybodaeth

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth am staffio a darparu gwasanaethau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fel y nodwyd uchod, un o agweddau allweddol ein proses ymgynghori a datblygu'r cynllun wedi hynny oedd cynnwys rhanddeiliaid anabl. Roeddem hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o'n Harolygon Staff yn ogystal ag adroddiadau ymchwil perthnasol gan y Llywodraeth i gyfrannu at ein penderfyniadau. Mewn rhai achosion mae'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys ochr yn ochr â'r dadansoddiad yn Adran 6, megis gwybodaeth sy'n ymwneud â recriwtio.

5.1 Gwella Bylchau Gwybodaeth

5.1.1 Ar hyn o bryd ceir bylchau yn y data sydd ar gael ynghylch cyfansoddiad demograffig defnyddwyr gwasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu gwella ei gweithgareddau casglu data ar draws ei meysydd busnes, gan gynnwys cynyddu cyfraddau datgan anabledd, a gwella'r systemau TG a ddefnyddir i gynnal a dehongli'r wybodaeth hon. Bydd Adnoddau Dynol yn cynnal ymarferion casglu data blynyddol i sicrhau bod y data'n parhau i fod yn gywir. Bydd pob maes busnes neu wasanaeth darparu hefyd yn astudio demograffeg eu hardal a'r gymuned a wasanaethant, er mwyn canfod sut gallant ymgysylltu'n llawnach. Byddant yn gwneud hyn drwy weithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau defnyddwyr lleol.

5.1.2 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod yr angen i wella'n gyson y ffordd rydym yn casglu ac yn dadansoddi ein data drwy gydol y Cynllun a bydd hefyd yn edrych ar gymariaethau meincnodi allanol gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Ynghyd ag adrannau eraill y llywodraeth, caiff y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei chynrychioli ar **Weithgor Data Rheoli Perfformiad** yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd wedi dechrau edrych ar ddadelfennu data anabledd mewn perthynas â phrosesau a chylchoedd rheoli perfformiad.

5.2 Prosesau Casglu Gwybodaeth

5.2.1 Rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynnwys pobl anabl mewn grwpiau ffocws, arolygon staff a chanfod ymchwil neu ddata perthnasol a gasglwyd gan sefydliadau ac adrannau eraill y Llywodraeth.

5.3 Cynnwys Pobl Anabl

5.3.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad llawn ei rhanddeiliaid anabl wrth ddylunio a darparu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd effeithiol. Wrth ddatblygu'r Cynllun, mae cyfraniad o'r fath wedi cael ei wneud drwy grwpiau ffocws a sgyrsiau dros y ffôn (fel y nodir

uchod yn Adran 2) ymgynghori ag arbenigwyr cydnabyddedig a defnyddio a dadansoddi ein data staff.

5.3.2 Mae Tîm y Cynllun Cydraddoldeb yn cynnal rhestr o randdeiliaid anabl allweddol yr ymgynghorir â nhw a chaiff y rhestr hon ei diweddau'n rheolaidd. Mae rhestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw ar gael yn Atodiad D.

Enghraifft o gynnwys pobl anabl – Y Gwasanaeth Carchardai

Ceisiodd y Gwasanaeth Carchardai ymgysylltu â staff allweddol, undebau llafur, arweinwyr polisi ac, yn anad neb arall, staff a charcharorion anabl wrth ddatblygu ei gynllun gweithredu anabledd. Roedd hyn yn cynnwys Grŵp Staff Cydraddoldeb Anabledd a gafodd ei recriwtio a'i gydlynu gan y Grŵp Rheoli Personél ym mhencadlys y Gwasanaeth Carchardai. Roedd staff anabl yn aelodau o'r Grŵp Staff a byddant yn parhau i chwarae rhan yn y Grŵp Staff wrth siapio'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn y dyfodol.

Roedd tri charchar – un i fenywod, un i droseddwyr ifanc a sefydliad lleol – wedi cael eu cynnwys mewn ymweliadau ymgynghori cydraddoldeb anabledd. Pwrpas yr ymweliadau oedd gosod allan yn glir y dull gweithredu cyffredinol a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth Carchardai ar gyfer cynnwys ac ymgynghori â'r rheini y byddai cyflawni cydraddoldeb anabledd fwyaf tebygol o effeithio arnynt neu y byddent yn debygol o gael dylanwad ar hynny. Cafodd uwch reolwyr, staff ar y rheng flaen, staff a charcharorion anabl yn ogystal ag asiantaethau partner gyfleoedd i gyfleu eu syniadau, eu pryderon a'u blaenoriaethau yng nghyswllt anabledd, drwy amryfal ffyrdd.

Mae sylwadau a phrofiadau'r rhanddeiliaid anabl hyn yn y Gwasanaeth Carchardai wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol ar gyfer datblygu polisi ac arferion anabledd Gwasanaeth Carchardai EM. Mae rhagor o ymweliadau â rhai sefydliadau carchardai ar y gweill er mwyn siarad â grwpiau o garcharorion anabl.

5.4 Arolygon Staff

5.4.1 Fel rhan o'r gwaith o fesur boddhad gweithwyr a monitro agweddau ymysg gweithwyr, cynhaliodd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol arolwg helaeth a oedd yn cynnwys cwestiynau am gyfathrebu mewnol, boddhad gweithwyr, cyfleoedd hyfforddi a datblygu a rheolaeth llinell. Cafodd addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer unrhyw bobl anabl a oedd yn dymuno ymateb.

5.4.2 At ei gilydd cafwyd 3,539 o ymatebion a oedd wedi helpu i ddarparu cyfres ddefnyddiol o ddata a gwybodaeth am feysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder a arferai fod yn gyfrifoldeb i'r Adran Materion Cyfansoddiadol neu'r Swyddfa Gartref.

5.4.3 Ar 31^{ain} Hydref 2007, anfonwyd arolwg ciplun 'Pwls' at 25% o staff meysydd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol, ac anfonwyd arolwg ar wahân at holl weithwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Caiff

yr arolwg staff llawn ei gynnal bob dwy flynedd, gyda'r arolwg Pwls yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd rhwng hynny.

5.4.4 I holi am sylwadau ein staff ymhellach, cynhaliwyd Arolwg Staff y Gwasanaeth Carchardai yn 2007 hefyd gyda phwyslais ar annog swyddogion a Graddfeydd Cefnogaeth Weithredol i lenwi'r arolwg.

5.4.5 Mae canlyniadau'r arolygon Barn Staff a Phwls yn rhoi dangosyddion defnyddiol o ganfyddiad y staff am nifer o feysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, rhaid ystyried maint cyfyngedig yr arolwg Pwls, anawsterau wrth bwyso'n ddigonol ar gyfer demograffeg, a'r anawsterau methodolegol sy'n gyffredin i bob ymarfer samplo a anelir at ganfod barn grŵp lleiafrif. Mewn sawl achos, roedd y gwahaniaethau mewn ymatebion gan bobl anabl a'r sampl ehangach yn ddibwys ac o'r herwydd dylid eu darllen yn ofalus fel dangosyddion yn hytrach na thystiolaeth o batrymau clir y gellir gweithredu arnynt.

5.4.6 Mae'r arolygon wedi amlygu meysydd lle'r oedd angen gweithredu. Roedd chwe unigolyn anabl o bob deg yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda thegwch a pharch, o'i gymharu â dros saith o bob deg o weddill y staff. Gallai hyn adlewyrchu patrymau cenedlaethol ehangach, lle mae arolygon yn awgrymu bod pobl anabl ddwywaith mor debygol o roi gwybod am driniaeth annheg na phobl nad ydynt yn anabl.[4] Byddwn yn edrych ar ffyrdd o roi sylw i'r rhesymau am hyn fel rhan o waith y Grŵp Aflonyddu, Bwlio a'r Cynllun Gweithredu 10 Pwynt.

5.4.7 Mae'r arolygon yn dangos yn glir iawn pam mae gwerth gweithredol yn perthyn i gael gweithlu sy'n adlewyrchu'r boblogaeth. Dywed wyth o bob deg o'r bobl anabl a atebodd eu bod yn chwilio'n gyson am ffyrdd gwell o wasanaethu cwsmeriaid a rhanddeiliaid, sy'n uwch na'r ffigur a welwyd yn y sampl cyffredinol. Mae pobl anabl hefyd yn teimlo eu bod yr un mor debygol o gael adborth rheolaidd ac adeiladol, ac mae ganddynt lefelau tebyg o fwriad i aros yn gweithio yn y sefydliad.

5.4.8 Roedd pobl anabl yn teimlo'n llai abl i roi gwybod am achosion o fwlio neu aflonyddu, gydag ychydig dros hanner, o'i gymharu â dwy ran o dair o bobl nad ydynt yn anabl, yn teimlo y gallent wneud hynny heb ofni effaith negyddol ar eu hunain.

5.4.9 Diffyg cyfathrebu yw'r her amlycaf sy'n wynebu pobl anabl. Roedd 61% o staff anabl yn teimlo bod eu harweinydd yn rhoi o'u hamser i wrando arnynt a deall eu sylwadau cyn gweithredu, o'i gymharu â 70% o bobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn wedi helpu i nodi blaenoriaeth allweddol y Cynllun o ran darparu mynediad gwell i wybodaeth.

5.4.10 Bydd y Gwasanaeth Carchardai yn edrych ar gyfradd ymateb y staff hynny sy'n datgan anabledd ac yn edrych ar unrhyw wahaniaeth sylweddol

---

[4] Arolwg Triniaeth Deg yn y Gwaith, 2005 http://www.berr.gov.uk/files/file38386.pdf

rhwng y rheini a'r staff nad ydynt yn anabl er mwyn canfod materion. Yn sgil y rhain bydd cynllun gweithredu'n cael ei lunio er mwyn cyfrannu at newidiadau polisi yn y dyfodol.

5.5 Tystiolaeth o Ymchwil Berthnasol

5.5.1 Mae gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn effeithio ar adrannau eraill yn Whitehall, ac mae eu gwaith hwythau'n effeithio ar waith y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn aelod o Grŵp Trawslywodraethol y Swyddfa Materion Anabledd ar Gyfathrebu Anabledd, sy'n enghraifft o ymrwymiad parhaus y Weinyddiaeth Gyfiawnder i chwarae rhan allweddol ar gyfer dylanwadu ar bolisïau ac arferion anabledd y llywodraeth.

5.5.2 Wrth lunio'r sylfaen dystiolaeth sy'n cyfrannu at y Cynllun Gweithredu (yn Adendwm 2) rydym wedi ystyried ymchwil ehangach ar allgáu. Isod ceir rhai meysydd diddordeb a chyhoeddiadau allweddol a ystyriwyd (gweler y troednodiadau) a'r canfyddiadau mwyaf perthnasol.

Adroddiad Iechyd Meddwl ac Allgáu Cymdeithasol (2004)
http://www.cabinetoffice.gov.uk/upload/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/social_exclusion_task_force/publications_1997_to_2006/mh_summary.pdf

5.5.4 Gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl wynebu anawsterau o ran cael gafael ar yr un warchodaeth gyfreithiol ag aelodau eraill o'r gymuned. Gellir eu hystyried fel tystion annibynadwy neu nad oes modd iddynt ymdopi â phwysau achosion cyfreithiol. Gall hyn at arwain at beidio â mynd ar drywydd achosion cyfreithlon ac, yn yr achosion gwaethaf, diwylliant lleol lle na chaiff pobl â phroblemau iechyd meddwl warchodaeth lawn y gyfraith.

Mae camau a gymerwyd i roi sylw i'r materion hyn yn cynnwys:

- Roedd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Troseddol (1999) yn cyflwyno systemau cefnogi ar gyfer tystion agored i niwed, gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl. Gall tystion agored i niwed nawr fod yn gymwys i roi tystiolaeth wedi'i recordio ar fideo, rhoi tystiolaeth dros gyswllt teledu byw, neu gael sgriniau o amgylch y blwch tystion. Roedd y Ddeddf hefyd yn diwygio'r gyfraith ar gymhwysedd, felly'r rhagdybiaeth yw bod pob tyst yn gymwys i dystio, gyda chymorth yn ôl yr angen, oni bai nad oes modd iddynt ddeall y cwestiynau a ofynnir iddynt. Mae cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn 2002 yn cynnwys adrannau penodol am gefnogi tystion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r darpariaethau newydd yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

- Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) yn rhoi un prawf galluedd i'w asesu yn ôl pob penderfyniad y mae'n rhaid ei wneud, sy'n caniatáu ar gyfer newid mewn galluedd.

5.5.5 Ceir sylfaen dystiolaeth gref sy'n dangos y berthynas rhwng salwch meddwl a defnyddio cyffuriau. Yn yr un modd mae cyswllt cryf rhwng

defnyddio cyffuriau ac allgáu cymdeithasol, gyda chymryd cyffuriau'n effeithio'n andwyol ar gyrhaeddiad addysgol, cyfoeth a lefelau cyflogaeth. Mae gan dros hanner y menywod sy'n defnyddio cyffuriau blant sy'n ddibynnol arnynt ac mae'r plant hynny'n anghymesur o debygol o ddefnyddio cyffuriau eu hunain. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi golwg werthfawr ac yn caniatáu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried yr effeithiau hyn wrth ddatblygu polisïau neu fentrau i roi sylw i salwch meddwl a defnyddio cyffuriau.

Enghraifft o Frwydro yn Erbyn Defnyddio Cyffuriau mewn Carchardai

Mae angen i'r Gwasanaeth Carchardai ystyried ymatebion sy'n ystyried rhyngberthynas y tair her (mae cymryd cyffuriau'n cael effaith andwyol ar gyrhaeddiad addysgol, cyfoeth a lefelau cyflogaeth). Mae hefyd yn angenrheidiol sicrhau bod triniaeth ar gyfer bod yn gaeth i gyffuriau o fewn cyrraedd i bobl anabl sy'n ymwneud â'u defnydd o gyffuriau ai peidio.

Mae pecyn cymorth amrywiaeth wrthi'n cael ei ddatblygu i roi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad arfer gorau ar gyfer y rheini sy'n datblygu polisïau cyffuriau ac yn darparu ymyriadau triniaethau cyffuriau i garcharorion anabl neu broblemau iechyd, yn ogystal â materion eraill sy'n ymwneud ag amrywiaeth. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith dros oes y Cynllun hwn.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai eisoes yn gweithredu Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed mewn caethiwed sy'n cydnabod y gall pobl ifanc mewn caethiwed sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau hefyd fod yn wynebu problemau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y gall camddefnyddio sylweddau arwain at salwch meddwl difrifol megis seicosis neu iselder, anawsterau wrth ganolbwyntio ac o bosibl arwain at broblemau iechyd cronig ac sy'n anablu sy'n gysylltiedig â firysau a drosglwyddir yn y gwaed er enghraifft.

Salwch meddwl ac Anabledd Dysgu yn y System Cyfiawnder Troseddol

5.5.6 Un her fawr sy'n wynebu'r system cyfiawnder troseddol yw'r nifer anghymesur o droseddwyr a gafwyd yn euog sy'n dioddef salwch meddwl neu anableddau dysgu. Mae 14% o fenywod a 10% o ddynion ym mhoblogaeth carchardai'n dioddef o salwch meddwl difrifol megis sgitsoffrenia neu anhwylderau rhithiol, o'i gymharu â llai na 1% o'r boblogaeth ehangach.[5]

5.5.7 Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod gan hyd at 6000 o bobl mewn caethiwed ar unrhyw un adeg IQ llai na 70, ond lefel gyfartalog IQ y boblogaeth ehangach yw 100[6] – gyda ffigurau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn awgrymu bod gan 23% o droseddwyr ifanc IQ o'r lefel hon. Mae ffigurau Dyslexia Action yn awgrymu bod gan 20% o boblogaeth carchardai ryw fath o

[5] http://www.prisonreformtrust.org.uk/subsection.asp?id=317

[6] Ymchwil Prifysgol Lerpwl, dyfyniad o'r ymddiriedolaeth diwygio carchardai http://www.prisonreformtrust.org.uk/subsection.asp?id=828.

anabledd cudd a fydd yn 'tanseilio ac yn effeithio ar eu perfformiad mewn addysg ac mewn gwaith'[7].

5.5.8 Mewn nifer o amgylchiadau gall amodau carchardai a pholisïau waethygu salwch troseddwyr a chanddynt anawsterau iechyd meddwl. Er enghraifft, ar gyfartaledd mae menyw mewn carchar 63 milltir o'i chartref o ganlyniad i nifer gyfyngedig y carchardai ar gyfer menywod ar hyn o bryd. Gall hyn yn ei dro waethygu anawsterau iechyd meddwl a lles unigolyn.[8]

5.5.9 Mae angen i bobl â materion iechyd meddwl ac anableddau dysgu allu cael gafael ar wasanaethau a'r system cyfiawnder troseddol mewn modd teg, ac mae hyn wedi cyfrannu at y gwaith ar hygyrchedd yn adran chwech y Cynllun hwn, yn ogystal â'r camau gweithredu yn Adendwm 2.

5.6 Proffil Staff

5.6.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr ac i raddau llai yn yr Alban. Fodd bynnag, nid oes modd cynnal cymariaethau amrywiaeth uniongyrchol rhwng adrannau gwasanaeth sifil a'r boblogaeth ehangach oherwydd gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddir i gasglu data a chyfrifo gwybodaeth am anabledd sy'n golygu gwahaniaethau sylweddol mewn data.

5.6.2 Roedd nifer staff parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn swydd o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Swyddfa Gartref ar 30ain Medi 2007 yn 26,481. Roedd nifer staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y Gwasanaeth Carchardai yn 49,455 ar 28ain Chwefror 2007[9]. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu ystadegau corfforaethol cywir ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei chyfanrwydd a disgwylir y bydd strategaeth ar gyfer y gwaith hwn yn barod yn nes ymlaen eleni.

5.7. Proffil Anabledd

5.7.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn defnyddio dau brif fesur ystadegol i gasglu gwybodaeth anabledd am staff. Gofynnir i'r staff ddatgan a ydynt yn ystyried bod ganddynt anabledd (a) wrth lenwi holiadur gweithlu cyfrinachol a (b) wrth lenwi Arolygon Barn Staff a Phwls. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r Rhwydwaith Anabledd yn awgrymu bod cyfradd datgan anabledd ar draws holl Adrannau Whitehall yn debygol o fod yn is na'r ffigur gwirioneddol.

5.7.2 Er mwyn helpu i ddatrys y materion hyn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n benodol i annog cyfraddau ymateb uwch i'r holiadur anabledd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ceisio canfod beth allai'r **rhwystrau**

---

[7] O astudiaeth a gyllidwyd gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau, gan fesur lefelau anableddau cudd yn rhanbarth Swydd Efrog a Glannau Humber
http://www.dyslexiaaction.org.uk/Administration/uploads/HiddenDisabilities.pdf

[8] Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2003.
http://www.prisonreformtrust.org.uk/subsection.asp?id=373

[9] Ystadegau carchardai gan Wasanaeth Carchardai EM – Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sengl Staff (2007)

rhag datgan fod a chyflwyno rhaglen i godi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo manteision datgan anabledd, ee canfod gofynion adnoddau'n fwy cywir ar gyfer staff anabl, a manteision gweithredu a darparu gwasanaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sgil dealltwriaeth well o anghenion amrywiol ein staff a'n cwsmeriaid anabl. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- erthyglau rheolaidd yn y Cylchgrawn Rhwydwaith Anabledd, Ability, (gan ddechrau gyda rhifyn Tachwedd 2007) ynghylch datgan anabledd;
- gwybodaeth ac arweiniad yn MOJazine (y cylchgrawn mewnol) a'r fewnrwyd ynghylch beth sy'n anabledd.

Bydd y rhain hefyd yn helpu staff i ddiweddaru'r argraffiad sydd ganddynt o'u gwybodaeth bersonol gyfrinachol eu hunain a gedwir gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol, petaent yn dymuno gwneud hynny.

5.7.3 Anfonir yr Arolwg Pwls at 25% o'r staff, ond gofynnir i'r holl staff lenwi'r Holiadur Monitro Anabledd pan fyddant yn ymuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n rhan o'r broses recriwtio. Bydd hyn yn cael ei wirio yn awr ac yn y man wedi hynny drwy anfon yr argraffiad personol cyfrinachol a nodwyd uchod at unigolion iddynt ei wirio a'i ddychwelyd yn gyfrinachol. Yn yr un modd â gydag unrhyw wybodaeth bersonol a gynigir yn wirfoddol, mae angen ystyried unrhyw ddata anabledd a gesglir yn y modd hwn fel dangosyddion yn hytrach na mesurau cywir o lefelau'r anabledd yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y mesurau a nodwyd uchod ar gyfer gwella cyfraddau datgan anabledd yn debygol o helpu gyda chywirdeb y data a gasglwn.

5.7.4 Mae Arolwg Staff yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn dangos bod oddeutu 6% o'r staff wedi datgan anabledd[10], o'i gymharu â 5.1% o staff yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn 2005, a 3.6% yn 2004. Mae'r ystadegau gweithlu sy'n seiliedig ar gwblhau'r Holiadur Anabledd cyfrinachol yn dangos bod nifer y staff anabl yn 3.8% er nad yw hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Carchardai ar hyn o bryd, a ddywed fod 3.25% o'i staff yn anabl, er bod eu harolwg staff diwethaf yn dangos cyfradd datgan o 5.6%.

5.7.5 Mae ystadegau gweithlu'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn dangos bod staff sy'n datgan anabledd yn cynrychioli 5.09% o'r rheini ar y raddfa weinyddol is, ond dim ond 2.46% o'r staff ar y lefel uwch wasanaeth sifil, er bod y ffigur uwch wasanaeth sifil wedi gwella ychydig o 2.3% ym mis Rhagfyr 2006.

5.7.6 Ceir gwahaniaethau hefyd rhwng cydrannau'r sefydliad, gyda dros 6% o staff pencadlys yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn datgan anabledd o'i gymharu â llai na 3.5% yng Ngwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer meysydd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol wedi aros yn weddol sefydlog, fodd bynnag, gyda 3.81% o'r staff yn datgan anabledd ym mis Medi 2007, o'i gymharu â 3.9% ym mis Rhagfyr 2006.

[10] O arolwg staff 2007 yr Adran Materion Cyfansoddiadol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2007.

5.7.7 Efallai fod gan rai amodau a ddaw dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gyfraddau datgelu isel o ganlyniad i ofni'r stigma a ganfyddir sydd ynghlwm wrthynt. Er enghraifft, dywed yr Ymddiriedolaeth Aids Genedlaethol fod hyn yn aml yn wir ar gyfer pobl sy'n byw â diagnosis HIV neu AIDS. Mae'n dal yn hanfodol wrth ddelio ag achosion o'r fath, bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried cyfrinachedd yn briodol, yn ystod unrhyw ddatgelu unigol ac wrth sicrhau bod unrhyw addasiadau rhesymol yn cael eu cynnig neu eu gwneud.

5.8 Recriwtio a Dethol

5.8.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn un o ddefnyddwyr awdurdodedig y Cynllun Dau Dic, lle gwarentir cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n diwallu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyfweliad. Mae hyn yn berthnasol i swyddi a hysbysebir yn fewnol ac yn allanol.

5.8.2 Mae ystadegau Adnoddau Dynol o'r Adroddiad Cyfansoddiad Gweithlu yn dangos bod 6.1% o staff yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a gafodd eu recriwtio yn 2006/2007 wedi datgan anabledd, sy'n cymharu â 3.8% a oedd wedi datgan anabledd yn gyffredinol yn yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol. Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried sut y gall wella ymhellach y ffordd mae'n casglu data ar lefelau anabledd ar bob cam o'r broses recriwtio a chadw, gan gynnwys lefelau ceisiadau, didoli, cyfweld a llwyddo.

5.8.3 Mae'r ystadegau ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai yn is, gyda 1.2% o'r staff a gafodd eu recriwtio yn y flwyddyn at fis Medi 2006 yn datgan anabledd. Efallai fod modd egluro hyn yn rhannol oherwydd natur y gwaith, a bod gofyn i nifer o staff allu cyflawni technegau rheoli ac atal, fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng staff anabl y Gwasanaeth Carchardai mewn swydd (3.24%) a'r lefelau recriwtio yn amlwg.

5.8.4 Credir bod modd egluro'r gwahaniaeth yn rhannol oherwydd bod staff mewn swydd yn cael eu monitro'n fwy effeithiol nag yn ystod y broses recriwtio. Fel rhan o gyflwyno system Adnoddau Dynol technoleg gwybodaeth newydd (PHOENIX) yn y Gwasanaeth Carchardai, bydd gweithdrefnau monitro recriwtio mwy effeithiol yn cael eu datblygu dros oes y Cynllun hwn. Gall nifer y bobl sy'n datgan anabledd a hwythau yn eu swydd hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu.

5.8.5 Bydd y Gwasanaeth Carchardai yn cynnal dadansoddiad newydd o'i ddata Adnoddau Dynol yn ystod 2008 (o'r enw Adolygiad Amrywiaeth) a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ystadegau recriwtio a dethol ar gyfer ymgeiswyr anabl mewn cyfnod o 12 mis. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r dadansoddiad yn cyfrannu at gamau gweithredu yn y dyfodol a pholisïau arfaethedig. Mae Gwasanaeth Carchardai EM hefyd yn datblygu strategaeth ymgysylltu i annog pobl anabl i wneud cais am swyddi yn y Gwasanaeth Carchardai. Mae hyn wedi dechrau gyda gwaith allgymorth gyda Re-hab a RADAR gan gynnwys hysbysebu cadarnhaol.

5.9 Rheoli Perfformiad

5.9.1 Caiff perfformiad staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei adolygu a'i asesu'n rheolaidd ac mae'n rhan anhepgor o reoli pobl yn effeithiol. Caiff perfformiad ei asesu yn ôl amcanion/safonau gwaith a datblygu y cytunir arnynt ar ddechrau'r flwyddyn perfformiad ac yn unol â blaenoriaethau busnes. Mae gan reolwyr a staff gyfrifoldeb i sicrhau bod adolygiadau perfformiad rheolaidd yn cael eu cynnal. Bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad felly'n cael eu hystyried a'u rheoli wrth iddynt godi a bydd cymorth priodol ar gael i annog unrhyw welliannau a dybir sy'n angenrheidiol. Bydd staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael sgîl perfformiad diwedd blwyddyn yn ôl eu perfformiad yn ystod y flwyddyn y cytunir arno rhwng yr unigolyn a'i reolwr llinell.

5.9.2 Nid oedd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn dadansoddi sgoriau perfformiad yn ôl anabledd. Rhoddir sylw i hyn ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon ar gael ar gyfer y flwyddyn perfformiad 2007/8. Bydd yr Adolygiad Amrywiaeth sy'n cael ei gwblhau gan y Gwasanaeth Carchardai'n ystyried yr wybodaeth a roddir mewn blychau staff anabl a bonysau a roddir am berfformiad. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn cyfrannu at ddatblygu polisïau a dealltwriaeth well o sut mae staff yn cymharu â staff nad ydynt yn anabl.

5.10 Dyrchafu (gan gynnwys dyrchafu dros dro)

5.10.1 Mae ystadegau gweithlu yn dangos bod 11.1% o staff yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a gafodd eu dyrchafu yn 2006/2007 wedi datgan anabledd, sy'n cymharu â 3.8% a oedd wedi datgan anabledd yn gyffredinol yn yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol. Ar hyn o bryd nid oes gan Wasanaeth Carchardai EM ystadegau mae modd eu cymharu, fodd bynnag bydd yr Adolygiad Amrywiaeth yn ystyried ffyrdd o wella casglu data am ddyrchafu er mwyn casglu'r wybodaeth hon.

5.11 Trosiant Staff ac Ymddiswyddo

5.11.1 At ei gilydd roedd trosiant staff ar gyfer meysydd busnes yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn 2006/2007 yn 9%. Ar hyn o bryd ystyrir bod y ffigurau ar gyfer trosiant staff anabl yn annibynadwy, a bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych ar ffyrdd o wella casglu data trosiant staff yn ystod y Cynllun.

5.11.2 O'r 1675 o bobl a ymddiswyddodd o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol yn 2006/2007, 27, neu dim ond 1.6% oedd wedi datgan anabledd. Ar hyn o bryd nid oes gan Wasanaeth Carchardai EM ystadegau ar gyfer ar y mater hwn, ond unwaith eto bydd yn ystyried cyfraddau ymddiswyddo fel rhan o'r Adolygiad Amrywiaeth.

5.12 Tâl a Buddiannau

5.12.1 Daeth Archwiliad Tâl 2005 yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol i'r casgliad nad oedd dim bylchau tâl arwyddocaol rhwng staff anabl a staff nad ydynt yn anabl. Cynhelir Archwiliad Tâl Cyfartal ar ôl gweithredu pob dyfarniad tâl dan y Fargen (hy, 2008-10). Bydd yr archwiliad cyntaf o'r fath yn dechrau ym mis Ebrill 2008. Bydd y trefniadau tâl a graddio newydd yn galluogi gwneud cymariaethau ar draws y sefydliad.

5.12.2 Mae adolygiad tâl cyfartal hefyd wedi cael ei gynnal ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai yn 2007, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o anabledd. Mae dadansoddiad wedi cael eu cwblhau ac mae camau gweithredu'n cael eu nodi ar hyn o bryd.

5.13 Bwlio ac Aflonyddu

5.13.1 Fel rhan o'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bolisi dim goddefgarwch tuag at wahaniaethu ac ymddygiad annerbyniol. Ystyrir pob mater o'r fath yn ddifrifol a chymerir camau cymesur, pan fydd hynny'n briodol.

5.13.2 Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch gweithredu polisi dim goddefgarwch o'r fath yn effeithiol a llwyddo i weithredu Cynllun 10 Pwynt Swyddfa'r Cabinet yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ym mis Medi 2006, roedd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol wedi creu ac wedyn datblygu Grŵp Aflonyddu a Bwlio a Gweithredu Cynllun Deg Pwynt.

5.13.3 Gyda chynrychiolwyr o bob parti a chanddynt ddiddordeb (ee Rhwydweithiau Staff, Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol, Ymgynghorydd Anabledd Adrannol, Ochr yr Undebau Llafur, Cyfarwyddiaeth Strategaeth a Chyfathrebu) a gan weithio o fewn cylch gorchwyl y mae pawb wedi cytuno arno a diffiniadau a dderbyniwyd, mae'r Grŵp yn darparu fforwm hanfodol ar gyfer rhannu arfer gorau yng nghyswllt amrywiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer pobl anabl ac mae'n enghraifft o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried gweithgareddau'r Grŵp fel mater penodol dan y Ddyletswydd Gyffredinol.

5.13.4 Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Carchardai yn datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu. Bydd yr ymgyrch hon yn cynnwys taflenni, cardiau a rhaglen hyfforddi a fydd yn cynnwys modiwlau sy'n benodol ar gyfer pob maes amrywiaeth, gan gynnwys anabledd.

5.14 Rheoli Presenoldeb

5.14.1 Ar gyfer staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol, mae'r rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cofnodir pob salwch, ac am ddelio â phob absenoldeb oherwydd salwch yn y tymor byr a'r tymor hir. Bydd pob aelod o staff sydd wedi colli'r gwaith oherwydd salwch yn cael cyfweliad dychwelyd i'r gwaith gyda'i reolwr, fel rheol ar y diwrnod cyntaf y bydd yn dychwelyd i'r gwaith. Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle i groesawu staff yn ôl i'r gwaith, ac mae'n galluogi trafodaeth dwy ffordd lle bydd modd trafod

gwaith a materion eraill. Bydd y polisi hwn yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddir yn 2008.

5.14.2 Mewn sefyllfaoedd lle ceir salwch mwy cyson neu batrymau o salwch sy'n achosi pryder, gall rheolwyr drefnu Cyfarfod Adolygu gyda'r aelod o staff er mwyn gallu cynnal trafodaeth mwy ffurfiol, ac er mwyn cymryd camau priodol. Pan fydd staff wedi colli'r gwaith am 15 diwrnod, efallai yr ystyrir cyfeirio at y gwasanaeth iechyd galwedigaethol, yn enwedig mewn achosion pan nad yw natur yr absenoldeb yn hysbys, neu pan nad oes arwydd o'r dyddiad dychwelyd i'r gwaith.

5.14.3 Mae polisïau a phrosesau newydd yn cael eu datblygu yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys Polisi Rheoli Presenoldeb newydd. Bydd yn cefnogi'r angen busnes am fframwaith cyson, a fydd wedi'i osod o fewn ffiniau clir fel y diffinnir gan gyfarwyddyd canolog Swyddfa'r Cabinet a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd yn helpu rheolwyr i roi sylw i faterion presenoldeb mewn ffordd sy'n fwy cyson a gwella prosesau monitro.

5.14.4 Bwriedir y bydd harmoneiddio'r dull gweithredu ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei chyfanrwydd yn arwain at welliant cadarnhaol mewn perfformiad yn ôl targedau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. 10.9 diwrnod o salwch oedd y perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn 2006/2007 ar gyfer staff yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol. Disgwylir y bydd y perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer 2007/2008 yn 10.0 diwrnod.

5.14.5 Mae gan yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Gwasanaeth Carchardai ddarpariaeth ar gyfer absenoldeb sy'n ymwneud ag anabledd ac absenoldeb ar gyfer ailsefydlu, asesu neu drin, nad yw wedi'i gynnwys gyda rheoli absenoldeb oherwydd salwch, y gellir ei ddarparu fel rhan o addasiad rhesymol.

5.14.6 Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Carchardai yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Shaw ar brosiect peilot. Bydd y prosiect yn cyllido dau weithiwr achos Gwasanaeth Aros mewn Gwaith gyda'r Gwasanaeth Carchardai i gefnogi staff yr effeithir yn andwyol ar eu presenoldeb neu eu perfformiad oherwydd anaf, salwch neu nam. Y nod yw camu i mewn yn gynnar a helpu i osgoi absenoldeb tymor hir. Bydd y gweithwyr achos yn darparu arweiniad a chyngor ar faterion sy'n ymwneud ag anabledd gan gynnwys addasiadau rhesymol. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso ar ddiwedd 6 mis.

5.14.7 Ar ben hynny mae ein Rhwydweithiau Staff yn cyflwyno seminarau codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff a rheolwyr llinell am salwch a chyflyrau gwanychol ac effaith y rhain ar yr unigolyn.

Adran 6 – Defnyddio'r Wybodaeth a Gasglwyd

Mae'r adran hon yn gosod allan sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid anabledd allweddol yn ystod y broses ymgynghori i ddylanwadu ar ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Yn ogystal â chanolbwyntio ar y prif bryderon, mae hefyd yn rhoi tystiolaeth o arfer da a ganfuwyd wrth ymgynghori 'n meysydd busnes drwy'r wybodaeth a ddarparwyd. Cyfeirir yn briodol at yr holl flaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn Adendwm 2 a byddant yn cael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun.

6.1 Canfod Blaenoriaethau Anabledd Allweddol

6.1.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad a amlinellir uchod (yn Adrannau 2 a 5) roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi canfod bod tri maes allweddol o bryder mawr i bobl anabl. Mae hefyd yn glir mai thema sy'n uno'r holl faterion a godwyd yw chwalu'r rhwystrau sy'n rhwystro pobl anabl rhag cyfranogi'n llawn yng ngwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

6.1.2 Dyma'r tair prif faes:
- **Hygyrchedd**
- **Ymgysylltu â'r gymuned**
- **Hyfforddiant**

6.1.3 Mae'n werth nodi yma er y bydd hyfforddiant yn fwyaf perthnasol i weithwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a bod hygyrchedd ac ymgysylltu â'r gymuned yn fwyaf perthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth, ceir gorgyffwrdd sylweddol.
Er enghraifft, bydd ansawdd ac argaeledd hyfforddiant i staff yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaeth. Mae hygyrchedd – i adeiladau neu i wybodaeth – yr un mor bwysig i weithwyr ag ydyw i'r cyhoedd.

6.2 Blaenoriaeth Allweddol Un: Hygyrchedd

6.2.1 Yn ystod yr ymgynghoriad a'r broses cynnwys pobl, daeth yn amlwg bod gan bobl anabl ystod eang o bryderon ynghylch hygyrchedd.
Rydym wedi rhannu'r pryderon hyn yn dri maes mwy penodol sef: Mynediad i Gyfiawnder, Mynediad i Adeiladau a Mynediad i Wybodaeth.

6.3 Mynediad i Gyfiawnder

6.3.1 Mae darparu mynediad i gyfiawnder yn rhan hanfodol o waith nifer o feysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod bod cymunedau ac unigolion gwahanol yn wynebu sialensiau gwahanol wrth ddefnyddio'r system cyfiawnder.

6.3.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod y system yn hygyrch, a rhaid iddi gael ei gweld felly hefyd. Ceir tystiolaeth bod pobl anabl yn llai tebygol o gael profiad cadarnhaol wrth ddefnyddio'r system cyfiawnder, naill ai fel dioddefwr neu dyst mewn achos troseddol, cyfranogwr mewn system cyfryngu, neu fel

carcharor neu un o ddefnyddwyr y gwasanaeth prawf. Mae hon yn broblem mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i roi sylw iddi mewn nifer o feysydd busnes allweddol.

6.4 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Gyfiawnder

6.4.1 Dan Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol (1999), **gofynnir i lysoedd wneud addasiadau** er mwyn galluogi pobl agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl, i roi tystiolaeth. Gall hyn gynnwys sgriniau o amgylch y blwch tystion, neu'r hawl i roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, er enghraifft.

6.4.2 Mae **mynediad i gyfiawnder mewn cyfraith sifil ac wrth ddatrys anghydfod** yr un mor bwysig â mynediad i gyfiawnder troseddol. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cyflwyno â'rhagdybiaeth galluedd' ac mae wedi sicrhau bod pobl agored i niwed, gan gynnwys y rheini ag anableddau dysgu neu salwch meddwl, yn cael gwneud eu penderfyniadau eu hunain cymaint ag y bo modd. Pan na fydd hyn yn bosibl, mae'n rhoi fframwaith i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu budd gorau nhw.

6.4.3 Bydd argymhellion o ymchwil i **Brofiadau Llys Oedolion â Phroblemau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu neu Alluedd Meddyliol Cyfyngedig** yn cyfrannu at sut mae gwella'r gwasanaethau hyn ymhellach. Bydd yr ymchwil yn cynnwys pobl o'r grwpiau targed ac elusennau iechyd meddwl (a fydd hefyd yn rhan o'r grŵp Ymgynghorol/Llywio) a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2009.

6.4.4 Bob blwydd bydd pobl agored i niwed a phobl dan anfantais yn wynebu problemau cyfreithiol megis ysgariad, diddymiad, troi allan neu ddyled. Fydd nifer o'r bobl hyn ddim mewn sefyllfa i dalu am unrhyw gymorth cyfreithiol eu hunain, a bydd angen yr **help sydd ar gael dan Cymorth Cyfreithiol** arnynt. Mae Cymorth Cyfreithiol yn caniatáu i bobl na all ei fforddio gael gafael ar help cyfreithiol mewn achosion sifil a throseddol gan gynnwys rheoli dyledion ac ymddangos mewn Llysoedd Ynadon. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio i gefnogi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i ddarparu gwasanaeth gwell i'w ddefnyddwyr, ac mae profion modd wedi cael eu cyflwyno yn y Llysoedd Ynadon. Disgwylir y bydd yn cyflawni arbedion gwerth oddeutu £5 miliwn y flwyddyn, a fydd yn golygu bod modd targedu cymorth cyfreithiol yn fwy effeithiol o lawer, gan gefnogi'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

6.4.5 Ar ben hynny, ym mis Hydref 2005 cyhoeddodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'n talu am gostau rhesymol **dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain** mewn achosion lle defnyddir cymorth cyfreithiol. Mae dolenni clyw hefyd ar gael mewn llysoedd ac mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn gweithio i wella hygyrchedd dolenni clyw.

6.4.6 Mae aelodau Byrddau Parôl yn cael eu hyfforddi i weithredu'n deg wrth gyfweld â charcharorion ac ystyried achosion. Mae'r Bwrdd yn monitro'i

achosion yn rheolaidd i sicrhau bod y safon hon yn cael ei diwallu ac mae wedi sefydlu **Gweithgor Amrywiaeth** i wneud argymhellion ynghylch pa gynnydd pellach mae modd ei wneud, gan sicrhau na fydd dim grwpiau lleiafrifoedd, gan gynnwys pobl anabl, dan anfantais.

6.4.6 Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder raglen barhaus o ymchwil casglu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar **Brofiad Llys Pobl Agored i Niwed**. Mae'r Rhaglen Profiad Llys Pobl Agored i Niwed yn rhan hanfodol o ymgyrch y Weinyddiaeth Gyfiawnder i 'ganolbwyntio ar y defnyddiwr' drwy sicrhau bod ein polisïau a'n gwasanaethau'n ymateb i anghenion amrywiol, yn enwedig ac ystyried diogelu hawliau grwpiau lleiafrifoedd ac agored i niwed. Mae hefyd yn berthnasol i'r Gwasanaeth Llysoedd sy'n ceisio sicrhau bod y system llys yn diwallu anghenion defnyddwyr llys ac yn darparu'r canlyniadau gorau iddynt. Y darn mwyaf perthnasol o ymchwil fydd profiad llys y rheini â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu a galluedd meddyliol cyfyngedig a fydd yn cael ei gwblhau yn 2009. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r rhaglen ymchwil hon yn cael ei defnyddio i gyfrannu at ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

Enghraifft o Fynediad i Gyfiawnder – y Nod Ansawdd Cyfryngu

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithredu nod ansawdd 'Mynediad i Wasanaeth', sy'n mynnu bod pob gwasanaeth cyfryngu yn ystyried y problemau beunyddiol y gall y gymuned eu hwynebu, a'r rhwystrau y gellir eu hwynebu wrth geisio cyfryngu.

Dan delerau'r nod, mae'n rhaid i Wasanaeth Cyfryngu ddarparu polisi ysgrifenedig sy'n edrych yn benodol ar ddarparu gwasanaethau i gleientiaid ac sy'n rhagflaenu gwahaniaethu afresymol a/neu anghyfreithlon ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, oed neu grefydd.

Pan fydd sefydliad yn targedu grŵp penodol, gofynnir iddyn nhw bennu eu gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio grwpiau eraill at wasanaethau cyfryngu amgen, gan sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer mynediad i wybodaeth.

Mae'r gofynion hyn, sy'n cael eu monitro gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, yn sicrhau bod cyfryngu teulu ar gael cymaint ag sy'n bosibl i bob grŵp.

6.5 Mynediad i Adeiladau

6.5.1 Mae ystad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys amrywiaeth o adeiladau hanesyddol a modern ac mae rhai ohonynt yn Adeiladau Rhestredig Gradd I a II, sy'n golygu na fydd pob adeilad yn hygyrch i bob defnyddiwr.

6.5.2 Nid oes dim data canolog yn cael ei gadw am nifer yr adeiladau a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd sy'n gwbl hygyrch i bobl anabl ai peidio. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod y rhwystrau rhag hygyrchedd adeiladau ar gyfer pobl anabl a bydd y

Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymdrechu i sicrhau bod ei gwasanaethau ar gael drwy ddulliau eraill.

6.6 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Adeiladau

6.6.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried **addasiadau rhesymol i adeiladau** mewn amrywiaeth o ffyrdd, a reolir yn bennaf ar lefel leol, ac sy'n ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae pob sefydliad yng nghylch gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am sicrhau y caiff ei rwymedigaethau eu diwallu.

6.6.2 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflogi **Ymgynghorydd Anabledd Adrannol** a'i brif ddyletswydd yw darparu arweiniad a chyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae rhan o gyfrifoldebau'r Ymgynghorydd yn cynnwys mynediad pobl anabl i adeiladau ac i wasanaethau boed hwy yn gwsmeriaid, yn aelodau o'r farnwriaeth/ynadaeth, yn adfocadau, yn rheithwyr neu yn staff. Yng nghyswllt staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder mae hyn yn golygu cynnal archwiliadau hygyrchedd manwl o lysoedd, canolfannau gwrando tribiwnlysoedd, cofrestrfeydd profiant ayb. O ganlyniad i argymhellion yr archwiliadau hyn, mae GLIEM a rhannau eraill o'r sefydliad yn cynnal addasiadau i'w hystadau perthnasol sy'n rhagori ar y rhaglenni adeiladau treigl parhaus o uwchraddio a chodi adeiladau newydd sy'n diwallu'r gofynion statudol.

6.6.3 Mae ystad y Gwasanaeth Carchardai yn cynnwys adeiladau hŷn yn bennaf. Er bod modd cyflwyno rhai newidiadau, bydd natur nifer o adeiladau a'r ffaith eu bod yn Adeiladau Rhestredig Gradd I a II mewn rhai rhannau o'r ystad, yn golygu na fydd pob carchar yn hygyrch i bob carcharor. Fodd bynnag, rhaid i'r ystad gynnwys digon o lety **hygyrch neu wedi'i addasu** er mwyn sicrhau bod modd darparu llety diogel a gweddus i bob carcharor anabl, eu bod yn gallu cael gafael ar gyfleusterau, cyfleoedd addysg a gwaith a'u bod yn gallu cwblhau eu cynllun dedfryd a symud drwy'r ystad tuag at gael eu rhyddhau ac ailsefydlu yn y pen draw. Pan mae modd gwneud addasiadau i wella mynediad, cânt eu gwneud cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

6.6.4 Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno **Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai** diwygiedig a fydd yn mynnu bod carchardai yn nodi rhwystrau ffisegol a gweithredol ar lefel leol, gyda sefydliadau unigol. Y Llywodraethwr fydd yn gyfrifol am y mân waith i roi sylw i'r rhwystrau hyn. Caiff gwaith mawr ei gyfeirio at Dîm Eiddo'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Bydd y Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai'n mynnu bod Llywodraethwr/Cyfarwyddwr pob carchar yn enwebu **Swyddog Cyswllt Anabledd**. Bydd yr unigolyn hwn yn aelod addas o'r staff sy'n cael cyswllt rheolaidd â charcharorion ac sy'n cael digon o amser i weithredu fel pwynt cyswllt i gael gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â pholisi ac arfer da a gweithredu fel ymgynghorydd ar faterion sy'n ymwneud ag anabledd a sicrhau y caiff anghenion carcharorion anabl eu diwallu.

6.6.5 Ym mis Awst 2007 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder **arweiniad ar addasiadau rhesymol** ar gyfer y rheini a oedd yn dal swyddi barnwrol. Roedd yr arweiniad yn darparu ar gyfer addasiadau i drefniadau gweithio, yr amgylchedd waith a darparu offer arbenigol. Caiff ceisiadau am addasiad eu hystyried naill ai gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gwasanaeth Llysoedd, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd neu ddeilydd uwch swydd farnwrol, fel sy'n briodol.

Enghraifft o Fynediad i Weithgareddau mewn Carchar

Mewn rhai sefydliadau ceir rhwystrau ffisegol sy'n rhwystro carcharorion â phroblemau symudedd rhag mynd i weithdai, y llyfrgell a'r capel. Mae dewisiadau amgen sy'n mynd â'r ddarpariaeth i'r carcharor neu sy'n cynnig lleoliad amgen ar gyfer y gweithgareddau'n cael eu hystyried pan nad oes modd gwneud newidiadau ffisegol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol gyda rhai gweithgareddau, megis addoli, bod elfen grŵp y gweithgaredd yn aml yn bwysig iawn. Mae addasiadau eraill, megis darparu testunau crefyddol mewn fformat mawr neu Braille, yn cael eu darparu gyda chymorth sefydliadau megis yr RNIB.

Enghraifft o Fynediad i Adeiladau – Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

Yn ddiweddar roedd Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi Arweiniad Diogelwch a Pholisi diwygiedig ynghylch mynediad i adeiladau petai argyfwng.

Cafodd ei ddatblygu gan Grŵp Adolygu Diogelwch a oedd yn cynnwys Rhanddeiliad allweddol, gan ymgynghori'n helaeth â defnyddwyr eiddo a gwasanaethau GLIEM. O ganlyniad cafodd cynlluniau rheoli digwyddiadau eu diweddaru a neilltuwyd cynorthwyydd yn benodol i fonitro a helpu gofynion penodol pobl anabl.

Roedd Ystadau GLIEM yn cynnwys y Rhwydwaith Anabledd mewnol yn ogystal â Grwpiau Defnyddwyr Lleol ehangach fel rhan o brosesau ymgynghori a chynnwys i helpu i gyfrannu at y gwaith a wnânt. Mae hyn wedi bod yn effeithiol dros ben, canfuwyd diffygion eiddo ac fe'u cywirwyd, yn fwyaf diweddar Adeiladau Llys Marylebone.

6.7 Mynediad i Wybodaeth

6.7.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl ddefnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ei gwasanaethau a'i nod yw cyrraedd y safonau trawslywodraethol yng nghyswllt hygyrchedd gwybodaeth. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio ystod eang o fformatau cyfathrebu a chyfryngau i ddarparu gwybodaeth i bob cymuned. Mae'r Ymgynghorydd Anabledd Adrannol yn cynnig arweiniad ar bob agwedd ar wybodaeth hygyrch.

6.8 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Mynediad i Wybodaeth

6.8.1 Mae fersiynau electronig o gyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'r fewnrwyd, ac mae modd defnyddio'r rhain gyda **meddalwedd Darllen Sgrin**. Mae'r Weinyddiaeth yn darparu fersiynau **Braille, Print Bras a fersiynau sain** o'i dogfennau ar gais. Pan fydd yn briodol, bydd hefyd yn darparu fersiynau Hawdd eu Darllen o gyhoeddiadau, fel sy'n wir gyda'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn.

6.8.2 Mae dogfennau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd megis adroddiadau, ffurflenni a phecynnau ymgeisio'n cael eu cynhyrchu mewn **fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog** oni bai y rhagwelir y bydd y galw'n isel iawn (50 copi neu lai). Caiff cyhoeddiadau Cymraeg neu ddwyieithog eu cynhyrchu i'r un safon â'r fersiynau Saesneg cyfatebol. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyfieithu ei dogfennau i **ieithoedd lleiafrifol eraill** pan welir bod angen clir am gyfieithiadau o'r fath ymysg cynulleidfaoedd targed.

6.8.3 Ceir nifer o wefannau sy'n cael eu cynnal gan feysydd busnes yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd. Mae'r rhain yn cynnwys **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** yn gweithio gydag arbenigwyr ar eu gwefan a'r **Gwasanaeth Tribiwnlysoedd** yn gweithio ar fformatau Hawdd eu Darllen ar gyfer eu gwefan.

Enghraifft o Fynediad i Wybodaeth – Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae gwefan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
http://www.publicguardian.gov.uk/about/the-office.htm
wedi cael ei lansio fel enghraifft o arfer gorau hygyrchedd, cafodd ei lunio yn ôl y safonau AAA a dderbynnir gan y diwydiant a ddatblygwyd fel rhan o Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe Consortiwm y We Fyd Eang er mwyn helpu mynediad ar gyfer pobl anabl.

Mae'n cynnwys arweiniad llawn a hawdd ei ddeall ar gyfer pobl y gallai fod arnynt angen newid maint y testun, ac mae hyn wedi cael ei wneud yn gydnaws iawn â meddalwedd darllen sgrin.

Cafodd y Prosiect ei gyflawni gan gwmni sy'n arbenigo mewn cynhyrchu gwefannau hygyrch, a chafodd ei arwain gan Reolwr Prosiect sydd nam ar ei olwg.

6.8.4 Ar ben hynny mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi gwneud gwaith sylweddol ar ddarparu taflenni a gwybodaeth ar gyfer eu maes busnes mewn **fformatau amgen**, gan gynnwys Braille. Maent wedi cyflwyno llinell gymorth taflenni sy'n galluogi cwsmeriaid i ffonio a gofyn am fformatau amgen yn hawdd.

6.8.5 Ar hyn o bryd mae'r **Llysoedd Barn Brenhinol** yn gwella ac yn disodli cynnwys y pwyntiau gwybodaeth annibynnol o amgylch adeilad y Llysoedd Barn Brenhinol. Mae'r pwyntiau gwybodaeth yn cynnwys mapiau gyda chyfeiriaduron yr adeilad, mewn cyfuniad o fapiau modern 2d a 3d gyda chodau lliw. Bydd y rhain yn defnyddio lliwiau sy'n cyferbynnu'n gryf er mwyn gallu eu gweld yn glir a byddant yn disodli'r ffont Gothig bresennol gyda ffont "sans serif" clir sy'n haws ei darllen.

6.8.6 Fel rhan o brosiect i wella mynediad pobl anabl i wybodaeth, mae **Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid GLIEM** wedi bod yn datblygu arwyddion arddull Makaton i'w treialu mewn llysoedd a swyddfeydd. Mae Ystadau GLIEM hefyd yn ymwneud â threialu a gwerthuso'r arwyddion, gyda golwg ar eu cynnwys ochr yn ochr ag arwyddion sydd eisoes yn bodoli a fyddai'n gosod safon ar gyfer pob adeilad newydd a phrosiect ailwampio mawr.

6.8.7 Mae Gwasanaeth i Gwsmeriaid wedi bod yn gweithio gydag ymddiriedolaeth elusennol **Rhaglen Datblygu Geirfa Makaton**, sy'n creu, yn datblygu ac yn hyfforddi pobl yn ei rhaglen iaith. Drwy ddefnyddio cyfuniad o leferydd, arwyddion o Iaith Arwyddion Prydain a symbolau sydd wedi'u datblygu a'u dylunio'n arbennig, mae Makaton yn helpu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anawsterau cyfathrebu i ddeall lleferydd yn well a gwella eu sgiliau cyfathrebu. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i'r rheini sydd ag anableddau dysgu.
Mae'r Rhaglen Datblygu Geirfa Makaton wedi cael cyllid gan gronfa a gefnogir gan y llywodraeth yn ddiweddar, Futurebuilders, i ehangu'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu dros y tair blynedd nesaf.

6.8.8 Mae GLIEM a'r Rhaglen Datblygu Geirfa Makaton wedi cydweithio i ddatblygu dros **60 o symbolau i ganfod y ffordd** yn arbennig ar gyfer adeiladau llys. Cafodd yr arwyddion hyn eu datblygu gan y Rhaglen Datblygu Geirfa Makaton a chawsant eu profi gan bobl ag anableddau dysgu. O ganlyniad i'r adborth a gafwyd, cafodd yr arwyddion wedyn eu haddasu i ddiwallu anghenion y defnyddwyr.

6.8.9 **Llys Ynadon Hendon** yw'r llys cyntaf i dreialu'r arwyddion Makaton. Mae'r arwyddion wedi cael eu rhoi ar waith a bwriedir cynnal arolwg o ddefnyddwyr yn 2008-09 i brofi adwaith y defnyddwyr a chanfod pa mor ddefnyddiol yw'r arwyddion. Ar ben hynny, bydd safle peilot arall yn cael ei nodi ar gyfer profi a gwerthuso ddechrau 2008-09. Bydd y Rhaglen Datblygu Geirfa Makaton yn chwarae rhan sylweddol yn y naill gynllun peilot a'r llall i sicrhau bod yr arwyddion a'r symbolau'n diwallu anghenion defnyddwyr ac anghenion GLIEM.

Enghraifft o Fynediad i Wybodaeth – Llyfrgelloedd Carchardai

Mae llyfrgelloedd carchardai'n cynnig amrywiaeth o lyfrau llafar, llyfrau hawdd eu darllen, llyfrau print bras a CD-ROMs. Mae un Cynllun o'r fath yn cynnwys canolfan ddysgu sydd wedi'i hintegreiddio â llyfrgell carchar gyda mynediad i

feddalwedd dyslecsia a chefnogaeth mentor cymheiriaid drwy'r Cynllun Toe – by – Toe.[11] Caiff mynediad hawdd i lyfrau llyfrgell ei ddarparu gan droli llyfrau mewn rhai carchardai. Roedd rhai llyfrgellwyr hefyd yn diwtoriaid Sgiliau am Oes ac roeddent yn gallu rhoi cymorth ychwanegol i garcharorion ag anawsterau dysgu.

Yn ddiweddar roedd Carchar EM Birmingham wedi prynu meddalwedd cyfrifiadurol sy'n gallu helpu carcharorion gyda darllen, teipio a drafftio. Mae un o'r rhaglenni wedi'i dylunio fel map meddwl. Mae'n ddelfrydol ar gyfer rhywun â dyslecsia oherwydd ei fod yn galluogi'r unigolyn i greu llwybr o wybodaeth mae modd iddynt wedyn ei ehangu dan bob pennawd.

Mae'r Uned Hawliau a Pholisïau Troseddwyr yn cyhoeddi *Inside Disability*, cylchlythyr a gynhyrchir yn chwarterol ar gyfer carchardai a staff carchardai. Mae pob rhifyn yn canolbwyntio ar anabledd penodol ac yn gweithredu fel canolbwynt er mwyn dosbarthu prosiectau llwyddiannus ac ymarfer da gyda chyfraniadau gan garchardai a staff.

6.9 Blaenoriaeth Allweddol Dau: Ymgysylltu â'r Gymuned

6.9.1 Yn ystod yr ymgynghoriad a'r broses cynnwys pobl, daeth yn amlwg bod gan bobl anabl lawer o bryderon ynghylch eu hymgysylltiad â'r llywodraeth.

6.10 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Ymgysylltiad â'r Gymuned

6.10.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi cryn bwys ar ymestyn **ymgysylltiad â'r gymuned** gyda phrosesau democrataidd a barnwrol. Ym mis Gorffennaf 2007 cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Bapur Gwyrdd *Llywodraethu Prydain* gerbron y Senedd a nod y ddogfen honno yw:

- Bywiogi ein democratiaeth, gan roi'r modd i ddinasyddion gymryd rhan mewn penderfyniadau ar bob lefel.
- Egluro swyddogaeth y Llywodraeth, yn ganolog ac yn lleol.
- Ail-gydbwyso'r pŵer rhwng Senedd a Llywodraeth, a rhoi mwy o allu i'r Senedd ddal y llywodraeth i gyfrif.
- Rhoi gwell synnwyr i bobl Prydain o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Brydeinig, a'u cynnwys mewn dadl am ddyfodol cyfansoddiad y wlad.

6.10.2 Yn y cyd-destun hwn nod y Papur Gwyrdd yw ailfywiogi ein democratiaeth drwy wneud yn siŵr bod **penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y bobl y bydd y penderfyniadau'n effeithio arnynt**. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau anabledd lleol yn yr ymgyrch i ymateb i anghenion y gymuned leol yn ogystal â chanfod ffyrdd newydd i ddinasyddion a chymunedau ddylanwadu ar benderfyniadau a chymryd rhan yn y broses wleidyddol. Gall hyn amrywio o ddarparu ffyrdd newydd i unigolion godi materion sy'n destun pryder yn eu hardal leol i gefnogi dinasyddion, gan

[11] Caiff y cynllun llythrennedd Toe –by–Toe ei redeg gan Ymddiriedolaeth Shannon, ac mae'n gweithio gyda charcharorion i ddatblygu timau o garcharorion sy'n gallu darllen neu weithredu fel mentoriaid ar gyfer y carcharorion hynny na allant wneud hynny.

gynnwys y rheini ag anableddau, y mae arnynt eisiau chwarae rhan fwy uniongyrchol wrth redeg gwasanaethau lleol.

Enghraifft o Ymgysylltu â'r Gymuned – Cynlluniau Peilot Cyfiawnder Cymunedol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu 13 o gynlluniau peilot Cyfiawnder Cymunedol ledled y wlad lle mae modelau gwahanol o lysoedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn cael eu treialu, gan ddod ag amrywiaeth lawn yr Asiantaethau cyfiawnder troseddol ynghyd, yn ogystal â grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i ddatrys problemau a achosir gan droseddu yn yr ardal leol.

Dyma brif nodau'r prosiect Cyfiawnder Cymunedol:

- Gwneud y llys, y farnwriaeth a'r system cyfiawnder troseddol yn weledol ac yn ymatebol i'r gymuned
- Torri cylchoedd o aildroseddu
- Sicrhau bod cydymffurfio â gorchmynion llys neu gosbau eraill yn cael eu gweld a'u cydnabod gan y gymuned ac y rhoddir sylw i'w problemau

Mae dau gynllun peilot wedi bod ar waith am ddwy flynedd. Yng Ngogledd Lerpwl, mae'r Ganolfan Cyfiawnder Cymunedol yn cynnwys un ystafell llys gyda gwasanaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau gwirfoddol mewn ystafell llys penodol gydag un barnwr gydag awdurdodaeth Llys y Goron, Llys Sirol a Llys Ynadon. Mae gan Gynllun Cyfiawnder Cymunedol Salford ystafell llys cyfiawnder cymunedol yn y llys ynadon prif ffrwd, gyda phanel mawr o ynadon yn gwrando achosion llys cymunedol ac yn ymgysylltu â'r gymuned. Cafodd y Barnwr ar gyfer cynllun Lerpwl ei benodi gan banel a oedd, yn unigryw, yn cynnwys dau aelod o'r gymuned leol.

Mae'r dull gweithredu hwn sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn helpu i wella hyder y cyhoedd, hyrwyddo'r agenda parch a brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol. Gan fod cysylltiad cryf rhwng ymddygiad troseddol, amddifadedd a salwch meddwl, gall y dull gweithredu hwn helpu i ymyrryd yn gynharach ac yn fwy effeithiol gyda'r rheini sy'n dioddef o salwch meddwl.

Gall cyfranogiad agos y trydydd sector helpu gweithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol i ddefnyddio mesurau priodol ar gyfer dioddefwyr anabl, gan helpu i leihau cyfraddau aildroseddu. Gall hefyd helpu i wneud addasiadau i gynyddu mynediad ar gyfer dioddefwyr anabl drwy ddarparu cyngor arbenigol i'r system cyfiawnder troseddol, a chymorth i'r dioddefwyr eu hunain.

Enghraifft o Ymgysylltu â'r Gymuned – Ymgynghoriad ar Bolisi Etholiadol

Mae'r Is-adran Polisi Etholiadol yn un o Is-adrannau'r Gyfarwyddiaeth Cyfansoddiadol, ym Mhencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae llawer iawn o'i gwaith yn berthnasol iawn i'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ac mae'n rhoi enghraifft ddefnyddiol o arfer da cynnwys yn y Weinyddiaeth.

Mae'r Is-adran yn cynnal ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu helaeth wrth ddatblygu polisïau, gan wahodd cyfranogiad llawn sefydliadau gan gynnwys Scope, RNIB a'r Pollen Shop, yn ogystal â grwpiau cymunedol llai.

Un enghraifft o hyn yw'r gwaith i ddatblygu systemau pleidleisio sy'n fwy hygyrch i etholwyr. Cynhaliwyd cyfres o gynlluniau peilot e-bleidleisio gyda chydweithrediad llawn awdurdodau lleol a grwpiau anabledd ar lefel leol, gyda safonau mynediad llym wedi'u pennu yn y fframwaith.

Yn hollbwysig, roedd rhanddeiliaid anabl wedi cymryd rhan o gychwyn cyntaf y prosiect, o'r broses o sefydlu pa rwystrau at bleidleisio roedd yn rhaid rhoi sylw iddynt hyd at ddatblygu a gwerthuso'r cynlluniau peilot eu hunain. Ymgynghorwyd yn anffurfiol â'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn rheolaidd hefyd fel rhan o'r broses.

6.11 Blaenoriaeth Allweddol Tri: Hyfforddiant

6.11.1 Yn ystod yr ymgynghoriad a'r broses cynnwys pobl, daeth yn amlwg bod gan bobl anabl lawer o bryderon ynghylch lefel yr hyfforddiant roedd staff yn ei gael ar gyfer delio â chwsmeriaid anabl.

6.11.2 Roedd adborth o arolwg cyntaf aelodau'r Rhwydwaith Staff ar Anabledd a gynhaliwyd yn 2006 ar gyfer yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol hefyd yn dangos bod 50% o'r rheini a ymatebodd yn ystyried bod gan eu hanabledd effaith andwyol ar eu hyfforddiant a'u datblygiad.

6.12 Sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gwella Hyfforddiant

6.12.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i **ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymwyseddau priodol** y mae eu hangen ar staff er mwyn eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel fel y gosodir allan yn Strategaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Y brif egwyddor yw y dylai rheolwyr arwain a chefnogi eu staff drwy eu datblygu, eu hyfforddi a'u mentora i wella eu perfformiad yn gyson. Mae ymyriadau hyfforddiant yn defnyddio dull gweithredu sy'n fwyfwy cymysg, gan gyfuno hyfforddiant yn y swydd, hyfforddiant gan reolwyr, dysgu agored, hyfforddiant ffurfiol ayb. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu bod hyfforddiant a datblygiad gyrfa o fewn cyrraedd haws i'r rheini a allai ei chael hi'n anodd mynychu cyrsiau.

6.12.1 **Ni chaiff neb ei eithrio o weithgareddau dysgu a datblygu** ar sail rhyw, hil, anabledd, crefydd na chred, oed, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, cyfrifoldebau gofalu, rhywioldeb, aelodaeth o undeb llafur neu ddiffyg aelodaeth neu unrhyw reswm amherthnasol arall. Bydd staff a chanddynt batrymau gweithio gwahanol yn cael yr un cyfleoedd datblygu â'r rheini mewn cyflogaeth amser llawn. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Rhwydwaith Gofalu, mae dysgu a datblygu wedi lleihau'n sylweddol nifer y cyrsiau preswyl, ac mae pob cwrs preswyl sydd ar ôl yn cynnig dewis heb fod yn breswyl. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o gyrsiau'n dechrau ac yn gorffen

ar amseroedd addas. Disgwylir i reolwyr llinell a staff gydweithio i sicrhau bod trefniadau'n cael eu teilwra'n briodol i ddiwallu anghenion unigolion.

6.12.3 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth yn cael eu hymgorffori'n llawn ym mhob gweithgaredd Dysgu a Datblygu, er mwyn iddynt fod wedi'u gwreiddio ym mhopeth a wnawn. I gefnogi hyn, caiff darparwyr hyfforddiant allanol eu hasesu ar eu gallu i hyrwyddo polisïau cydraddoldeb ac i gefnogi datblygu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, cyn iddynt gael eu cynnwys ar **Restr Darparwyr Hyfforddiant Cymeradwy'r** Weinyddiaeth Gyfiawnder. Caiff yr holl hyfforddiant a ddarperir a'r holl ddeunyddiau hyfforddi eu hasesu yn yr un modd.

6.12.4 Mae'r **Adolygiad Capasiti a Gallu Dysgu a Datblygu** ar waith ac mae cynigion lefel uchel ar gyfer strwythur newydd yn cael eu trafod gyda'r busnes. Ar ôl cwblhau'r prosiect, byddwn mewn sefyllfa i gynhyrchu strategaeth ddiwygiedig ddrafft. Fel rhan o'r adolygiad rydym yn ystyried gweithredu System Rheoli Dysgu a fydd yn cadw'r holl ystadegau monitro hyfforddiant perthnasol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys anabledd.

Enghraifft o Hyfforddiant – Carchar Ei Mawrhydi Leeds

Mae Carchar Ei Mawrhydi Leeds wedi datblygu sesiwn ymwybyddiaeth anabledd i'w ddefnyddio gyda staff a charcharorion presennol a newydd. Mae'r sesiwn yn cynnwys trafodaethau ynghylch y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ogystal ag agweddau ehangach anabledd, mathau o wahaniaethu, y derminoleg gywir i'w defnyddio a sut mae adnabod anableddau neu anghenion penodol. Ceir pwyslais cryf ar chwalu canfyddiadau anghywir a datblygu'n gadarnhaol.

Mae'r sesiwn hwn nawr yn cael ei ddarparu ledled rhanbarth Swydd Efrog a Glannau Humber, ac mae'n rhan o gynefino safonol unigolion a ddaw i Garchar Ei Mawrhydi Leeds am y tro cyntaf, boed hwy yn staff, yn garcharorion neu yn ymwelwyr.

6.12.5 Caiff **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd** ei ddarparu i bawb sy'n ymuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'u hyfforddiant amrywiaeth cyffredinol. Cynhelir cwrs Ymwybyddiaeth Amrywiaeth ei gynnal fel rhan o'r broses gynefino ehangach, ac roedd oddeutu 1100 o'r rheini a ymunodd â'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol wedi dilyn y cwrs hwn yn 2006/7.

6.12.6 Caiff materion sy'n ymwneud ag anabledd eu codi'n rheolaidd ar gyrsiau ar gyfer rheolwyr fel rhan o gylch gwaith amrywiaeth ehangach. Mae'r Cwrs **Rheoli Presenoldeb** ar gyfer staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol, er enghraifft, yn delio'n benodol â materion sy'n ymwneud ag anabledd. Bydd **pecyn hyfforddiant e-ddysgu amrywiaeth** ar gael erbyn haf 2008 a bydd ymwybyddiaeth anabledd yn cael ei gynnwys fel un o'r meysydd amrywiaeth.

6.12.7 Ym mis Hydref 2007, dyfarnodd Dysgu a Datblygu gontract i ddarparwr allanol ddarparu **hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** wyneb yn wyneb ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr ar draws y Weinyddiaeth. Diben hyn yw hyfforddi'r rheini sy'n gyfrifol am gyflwyno polisïau a gweithdrefnau newydd er mwyn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn effeithiol.

6.12.8 Mae'r Gwasanaeth Carchardai hefyd yn adolygu ei hyfforddiant ar gyfer swyddogion carchar newydd er mwyn darparu **hyfforddiant amrywiaeth sy'n fwy perthnasol**. Yn benodol, bydd sesiynau amrywiaeth yn trafod materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth sydd y tu hwnt i hil er mwyn cynnwys anabledd a meysydd cydraddoldeb ac amrywiaeth eraill. Bydd hyn ar waith yn ystod 2008.
Ar ben hynny mae'r Gwasanaeth Carchardai yn datblygu rhaglen ymwybyddiaeth amrywiaeth sy'n cynnwys saith modiwl sy'n rhoi sylw i aflonyddu, anabledd, hil, rhyw, tueddfryd rhywiol, oed a chrefydd a chred. Caiff y modiwlau hyn eu cyflwyno ar draws pob rhan o'r Gwasanaeth Carchardai.

Enghraifft o Hyfforddiant – Cynllun Bwrsariaeth Anabledd

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymryd rhan mewn cynllun bwrsariaeth anabledd; rhaglen datblygu uwch arweinwyr ar draws y llywodraeth sydd wedi'i dylunio i gynyddu nifer y bobl anabl a gynrychiolir yn arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil.

Yn 2007 roedd un o ymgynghorwyr polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi cofrestru'n ddall wedi graddio o'r cynllun fel un o'r 25 llwyddiannus a oedd wedi cymryd rhan.

Dywedodd am y Cynllun "roedd yn cynnig cyllideb hyfforddiant benodol, mentora, rhwydweithio ag eraill a hyfforddiant arweinyddiaeth craidd. Drwy gymryd rhan lawn yn y rhaglen, roeddwn yn gallu canfod a datblygu nifer o gymwyseddau yr oedd eu hangen i berfformio'n fwy effeithiol mewn swyddi uwch. Rwyf yn credu y bydd cymryd rhan yn y cynllun o gymorth mawr i mi wrth i mi geisio symud fy ngyrfa ymlaen i'r lefel nesaf yn y Weinyddiaeth."

Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg ers degawd ac fe'i sefydlwyd gyda chyfranogiad llawn grwpiau anabl gan gynnwys y Bartneriaeth Anabledd a Grŵp Ymgynghorol Tywysog Cymru ar Anabledd. Mae'r cynllun wrthi'n cael ei ail-ddylunio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol, a bydd y dosbarth nesaf a fydd yn graddio yn cymryd rhan mewn rhaglen wedi'i diweddaru.

6.12.9 Mae'r Rhwydwaith Anabledd wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol i ganfod ffyrdd gwahanol o roi sylw i ofynion staff anabl. Mae eu canfyddiadau'n nodi bod angen darparu **Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol** ar gyfer staff anabl yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd cwrs Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol tri diwrnod o hyd ei lansio yn 2006 a chynhaliwyd dau gwrs yn ystod 2006-2007 ac mae un arall ar y gweill ar gyfer dechrau 2008. Mae'r cwrs ar gael i bob aelod o staff anabl a'i nod yw:

- Gwella sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a rheoli staff anabl yng nghyd-destun newid sefydliadol.
- Canolbwyntio'n benodol ar faterion sy'n effeithio ar staff anabl, gan gynnwys gwahaniaethu a darpariaethau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Canfod llwybr gyrfa.

Enghraifft o Ddatblygu- Hyfforddi Staff Anabl ar y Cyd

Mae'r Weinyddiaeth, mewn partneriaeth â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn datblygu cynllun hyfforddi ar y cyd. Bydd hyn yn galluogi staff anabl o bob sefydliad i lunio perthynas hyfforddi ar y cyd a fydd yn cynnig cefnogaeth a chyngor ar yr arfer gorau, a'i nod yw datblygu hyder a helpu datblygiad personol.

Enghraifft o Ddatblygu – Arweinwyr Diderfyn

Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi dau gyfranogwr ar Arweinwyr Diderfyn, rhaglen ddatblygu a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer pobl dalentog mewn grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'n agored i raddfeydd bwydo'r Uwch Wasanaeth Sifil, gweision sifil y DU sydd naill yn fenywod, neu sydd ag anabledd neu sy'n dod o gefndir lleiafrif ethnig. Mae'r cynllun yn ceisio arfogi'r rheini sy'n cymryd rhan â'r sgiliau arwain y bydd eu hangen arnynt er mwyn paratoi ar gyfer ymuno â'r Uwch Wasanaeth Sifil, a manteisio i'r eithaf ar eu talent i arwain.

6.12.10 Mae **Cynllun Mentora** ar agor i holl staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Swyddfa Gartref ac rydym yn annog yn benodol ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir. Nod y Cynllun yw cefnogi datblygiad gyrfa'r rheini sy'n cael eu mentora drwy gael mentor o'r tu allan i'w cadwyn rheoli dros gyfnod o chwe i naw mis.

6.12.11 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd rhan yn y **Cynllun Lleoliad Haf Anabledd**, sy'n rhaglen hyfforddiant haf wedi'i chydlynu gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer graddedigion ac israddedigion anabl o ansawdd uchel. Bydd myfyrwyr llwyddiannus yn cael lleoliadau gwaith 6-8 wythnos yn adrannau'r llywodraeth yn ystod misoedd yr haf gyda'r amcan o:

- Wella proffil adrannau, y Gwasanaeth Sifil yn fwy cyffredinol, fel cyflogwr sy'n wirioneddol gofleidio amrywiaeth;
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, yn enwedig y Rhaglen Datblygiad Llwybr Carlam (rhaglen datblygiad cyflym y Gwasanaeth Sifil); a
- Cynyddu nifer yr ymgeiswyr anabl o ansawdd uchel sy'n gwneud cais am y Rhaglen Datblygiad Llwybr Carlam, a rhaglenni eraill i raddedigion, gyda'r nod tymor hir o wella penodiadau grwpiau a dangynrychiolir ar lefel uwch.

6.12.12 Mae arweiniad ar ffurf **'Llawlyfr Gallu'** wedi cael ei ddatblygu gan y Rhwydwaith Staff ar Anabledd (yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol), y

Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol a darparwyr gwasanaethau corfforaethol sy'n rhoi pwynt cyfeirio cychwynnol ar gyfer staff anabl a'u rheolwyr llinell, gan roi manylion ymarferol sut byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i ganfod a diwallu anghenion cydweithwyr anabl. Ar hyn o bryd mae'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaeth ar sail argymhellion Gweithgor, a oedd yn cynnwys aelodau o'r Rhwydwaith Anabledd ac a arweiniwyd gan y Pencampwr Rhwydwaith Anabledd. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys proses asesu syml a darparu papurau gwybodaeth ar-lein ynghylch yr addasiadau rhesymol y gallai fod angen eu hystyried mewn perthynas ag anableddau penodol. Bydd Ochr yr Undebau Llafur Adrannol yn cymryd rhan yn broses hon. Bydd arweiniad corfforaethol ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael yng nghydrannau'r Weinyddiaeth yn cael ei gynhyrchu yn ystod oes y Cynllun.

6.12.13 Cynhelir **Wythnos Gallu**, a oedd yn fenter Dysgu a Datblygu'n wreiddiol, bob blwyddyn gyda phob rhanbarth yn cymryd rhan i raddau gwahanol. Caiff aelodau'r Rhwydwaith Anabledd eu hannog i gymryd rhan a chanolbwyntio ar faterion penodol sy'n ymwneud ag anabledd. Y thema ar gyfer 2007 oedd Iechyd Meddwl ac roedd yn cynnwys digwyddiad partneriaeth a drefnwyd gan y Rhwydwaith Anabledd a'r Swyddfa Gartref gyda siaradwyr o MIND a meddyg seicoleg.

Adran 7 – Dylanwadu ar Ganlyniadau

7.1 Caffael

7.1.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn amod i bob contractwr sy'n cyflawni gwaith ar ran y Weinyddiaeth. Mae angen i gontractwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldebau, eu gofynion a'u rhwymedigaethau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar ddechrau'r broses caffael. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyletswydd y sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd pan mae un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus wedi cael ei rhoi allan ar gontract i'r sector preifat.

7.1.2 Mae Is-adran Caffael y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymgymryd i fonitro amrywiaeth cyflenwyr ar gyfer contractau sydd eisoes mewn grym a rhai newydd. Ar y cyd â Thîm y Cynlluniau Cydraddoldeb, mae'r Is-adran Caffael yn gweithio i ddatblygu system ar gyfer monitro a gwerthuso contractau sydd eisoes mewn grym a rhai newydd, gan ddechrau gyda dau dreial a chyflwyno'n ehangach wedi hynny. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn rhan o'r broses adolygu contractau flynyddol. Bwriedir i'r broses hon gael ei chwblhau dros oes y Cynllun hwn.

7.2 Partneriaethau gyda Sefydliadau Allanol

7.2.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod bod datblygu a darparu polisïau effeithiol a gwybodus yn galw am fuddsoddiad mewn gwaith partneriaeth. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r gymuned i

ddeall y materion lleol a chymdeithasol sy'n wynebu ein defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rheini ag anableddau.

7.2.2 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill y Llywodraeth a chyrff allanol megis y Swyddfa Gartref, yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y sector preifat a sefydliadau rhyngwladol. Er enghraifft, er mwyn darparu System Cyfiawnder Troseddol effeithiol bydd y Llysoedd, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

7.3 Mynediad y Cyhoedd i Wybodaeth

7.3.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth am ei pholisïau ac am ei gwasanaethau drwy gyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth mewn sawl ffordd: yn ganolog, drwy ein gwefan; o gyfarwyddiaethau unigol am unrhyw bolisïau a gwasanaethau perthnasol maent yn gyfrifol amdanynt; a drwy'r llysoedd, tribiwnlysoedd, carchardai neu swyddfeydd eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Drwy ddarparu gwybodaeth, rydym yn ceisio sicrhau ei bod:

- Yn glir, yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn berthnasol.
- Yn briodol i ddarllenydd neu i ddefnyddiwr yr wybodaeth.
- Yn gymesur i'r pwnc.
- Wedi'i thargedu ac yn amserol.
- Yn hygyrch i'n holl gwsmeriaid.

7.3.2 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gwneud addasiadau rhesymol er mwyn galluogi pobl anabl i gael gafael ar wybodaeth mewn fformatau amgen. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn ar gael mewn fersiynau hawdd eu darllen a phrint bras. Ystyrir fformatau amgen ar gais.

7.4 Cynrychioli a Gwasanaethu'r Boblogaeth a Wasanaethwn

7.4.1 Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfrifoldeb dros y llysoedd, y tribiwnlysoedd, y carchardai a gwasanaethau perthnasol yng Nghymru a Lloegr – yn ogystal â nifer o dribiwnlysoedd yn yr Alban, a nifer gyfyngedig yng Ngogledd Iwerddon – ac mae'n gyfrifol am Swyddfa Cymru, Swyddfa'r Alban a nifer o Swyddfeydd Cysylltiedig (gweler Atodiad E). Daw staff sy'n gweithio yn yr holl swyddfeydd hyn dan awdurdodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Er mwyn darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol i'w chwsmeriaid, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod bod angen i'w staff adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r canlynol:

- Sicrhau nad oes gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau gwahanol yng nghyswllt hyder a boddhad staff.

- Sicrhau bod staff yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg mewn perthynas â chyfleoedd cyflogaeth, telerau ac amodau, hyfforddi a datblygu a dyrchafiad.
- Bod pobl anabl yn gweld y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel amgylchedd deniadol ar gyfer cyflogaeth.

7.4.2 Mae Cynllun 10 Pwynt y Gwasanaeth Sifil yn gosod allan y targedau ar gyfer Gwasanaeth Sifil sy'n fwy cynrychioladol ac amrywiol ac mae'r Weinyddiaeth wedi cynhyrchu rhaglen wedi'i theilwra o gamau gweithredu i gefnogi'r cynllun cenedlaethol. Mae copi o'r cynllun cenedlaethol ar gael yn http://www.civilservice.gov.uk/diversity/publications/pdf/10_point_plan.pdf.

Enghraifft o Godi Ymwybyddiaeth - Crymangelloedd

Yn 2007, roedd rhwydwaith PROUD ar gyfer staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig, a'r Rhwydwaith Anabledd wedi cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth am anemia crymangelloedd. Roedd y naill ddigwyddiad a'r llall yn cynnwys siaradwyr o'r Gymdeithas Crymangelloedd a Thalasaemia a siaradodd am sut roedd y salwch yn effeithio ar yr unigolyn a sut mae sefyllfaoedd llawn straen yn gallu gwaethygu'r cyflwr. Roedd y digwyddiadau hyn yn caniatáu i reolwyr a staff ofyn cwestiynau am y cyflwr, a gwella eu dealltwriaeth o sut mae ei reoli, a ffyrdd o wneud addasiadau yn y gweithle.

7.5 Cymryd Rhan Mewn Bywyd Cyhoeddus

7.5.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i annog pobl anabl i gymryd rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn annog hyn drwy ymgysylltu â'r gymuned i gynyddu cyfranogiad pleidleiswyr, drwy wneud pleidleisio'n fwy hygyrch yn ogystal â chynnwys pobl anabl yn y gwaith o ddatblygu polisïau a blaenoriaethau ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

7.5.2 Ar ben hynny bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn chwilio am ffyrdd o annog pobl anabl i wneud cais am benodiadau Ynadon a, phan fyddant yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol, gwneud cais am benodiadau barnwrol.

7.5.3 Caiff penodiadau i Gyrff Cyhoeddus Anadrannol eu gwneud drwy'r Comisiwn Penodiadau Cyhoeddus, sydd â chyfrifoldeb a bennwyd gan y llywodraeth i sicrhau amrywiaeth mewn penodiadau, gan gynnwys mwy o gyfranogiad gan bobl anabl. Nid oes ffigurau ar gael ar hyn o bryd am ganran y penodiadau i Gyrff Cyhoeddus Anadrannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond bydd y ffigurau hyn ar gael fel rhan o'r monitro blynyddol a wneir gan y Comisiwn Penodiadau Cyhoeddus.

Enghraifft o Gymryd Rhan mewn Bywyd Cyhoeddus – Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n gweinyddu amrywiaeth o dribiwnlysoedd ar

draws amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys treth, budd-daliadau, addysg, gwaith a phensiynau. Mae oddeutu 5% o'i staff wedi datgan anabledd.

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn penodi aelodau o'r paneli tribiwnlysoedd, ac mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl.

Mae gan rai Tribiwnlysoedd, megis y Tribiwnlys Apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, aelod ar y panel a benodwyd yn arbennig fel 'aelod anabledd' - aelod sydd naill ai ag anabledd eu hunain neu sydd â phrofiad uniongyrchol o anabledd. Swyddogaeth yr aelod hwn yw cynnig golwg ar yr heriau y gall apelydd anabl eu hwynebu.

7.6 Anabledd a'r Ynadaeth

7.6.1 Mae'n bwysig bod ynadon yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol a wasanaethant. Mae deunyddiau ymgeisio'n egluro bod croeso i ymgeiswyr anabl wneud cais a chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr o'r fath. Caiff pwyllgorau hefyd eu cyfeirio i fod mor hyblyg â phosibl wrth ystyried sut gellir darparu ar gyfer anghenion ymgeiswyr sydd wedi dangos y rhinweddau angenrheidiol ar gyfer yr ynadaeth, er mwyn iddynt allu gwasanaethu'r gymuned fel ynadon.

7.7 Anabledd a'r Farnwriaeth

7.7.1 Cytunwyd ar y strategaeth amrywiaeth barnwrol ym mis Mai 2006 rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Prif Ustus, Cadeirydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

7.7.2 Symudir ymlaen ar sawl elfen: o newidiadau deddfwriaethol i ehangu'r gronfa o ddarpar ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer penodiad barnwrol; gwneud y system penodiadau barnwrol yn decach ac yn fwy agored; cefnogi barnwyr i greu amgylchedd gwaith lle gall amrywiaeth ffynnu.

7.7.3 Bydd rhai enghreifftiau o fentrau a fydd yn helpu i gefnogi cynnydd yn amrywiaeth y rheini a benodir i'r farnwriaeth yn cynnwys -

7.7.4 Cynllun Cysgodi Gwaith barnwrol ffurfiol i roi cyfle i gyfreithwyr gael blas ar fywyd gwaith barnwr yn y llys a'r tu allan;

7.7.5 Cyflwynwyd gwaith rhan amser ar gyflog ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol yn 2001. Ym mis Ebrill 2005 cafodd y Cynllun ei ymestyn i gynnwys pob sector o'r llysoedd a'r farnwriaeth dan lefel yr Uchel Lys. Mae dros gant o farnwyr wedi manteisio ar y cynnig erbyn hyn.

7.7.7 Ar ben hynny, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gydag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, i gefnogi mentrau sydd wedi'u hanelu at gynyddu amrywiaeth y proffesiynau

cyfreithiol, a fydd maes o law yn cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth y farnwriaeth.

7.7.8 Mae testun llawn y strategaeth ar gael yn http://www.dca.gov.uk/publications/reports_reviews/judicial_diversity_strat.pdf ac ategir y Strategaeth gan Gynllun Gweithredu Anabledd Barnwrol 2005 http://www.dca.gov.uk/publications/reports_reviews/disequ_actionplan.pdf.

7.7.9 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, ym mis Awst 2007 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y **Polisi ar Addasiadau Rhesymol ar gyfer Deiliaid Swyddi Barnwrol ag Anableddau** (y cyfeirir ato yn 6.6.5). Mae'r polisi hwn yn gosod allan yr agwedd gadarnhaol at anabledd ac addasiadau rhesymol a gymerir ar gyfer ymgeiswyr am swydd farnwrol a deiliaid swyddi barnwrol.
Mae tesun llawn y Cynllun hwn ar gael yn http://www.justice.gov.uk/docs/pol-jud-office-disabilities.pdf.

7.7.10 Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, sy'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi datblygu polisïau i annog ymgeiswyr anabl a bydd yn darparu addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr drwy gydol y broses asesu.

Adran 8 – Cyhoeddi'r Cynllun a Monitro'r Cynlluniau Gweithredu

8.1 Cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

8.1.1 Y Cynllun hwn yw cyhoeddiad cyntaf y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ers sefydlu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mai 2007 fel sefydliad newydd a oedd yn ymgorffori hen swyddogaethau'r Adran Materion Cyfansoddiadol, y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol a chyfrifoldebau'r Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â rheoli troseddwyr.

8.1.2 Yn y Cynllun newydd hwn mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi nodi pa gamau sydd eisoes wedi cael eu cymryd i fynd â chydraddoldeb anabledd rhagddo, a lle mae angen mynd ymhellach ar integreiddio cydraddoldeb anabledd i'w blaenoriaethau sydd wedi newid. Mae'r Cynllun diwygiedig nawr yn adlewyrchu amrywiaeth lawn swyddogaethau a pholisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi'r cynnydd a wneir yng nghyswllt y Cynllun hwn yn flynyddol a bydd yn adolygu'r Cynllun bob tair blynedd.

8.2 Monitro'r Cynllun Gweithredu

8.2.1 Bydd monitro'r Cynllun Gweithredu (Adendwm 2) yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'i gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd canlyniadau a chynnydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn a fydd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol.

8.2.2 Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o bolisïau penodol sy'n berthnasol i feysydd busnes penodol a bydd gan bob maes busnes gyfrifoldeb dros fesur llwyddiant y polisïau hyn.

8.2.3 Bydd yr Is-Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn gweithio'n agos gyda meysydd busnes i ddarparu cyngor a chymorth a monitro cynnydd yn ôl y gweithgarwch yn y Cynllun Gweithredu a bydd yn cynhyrchu Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun.

8.2.4 Roedd pobl anabl yn ymwneud a datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd hwn, a byddant yn parhau i fod ynghlwm â'r cynnydd a datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn y dyfodol drwy gymryd rhan barhaus yn y gwaith o fonitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu.

8.3 Cwynion am y Cynllun

8.3.1 Mae gan unrhyw unigolyn hawl i gwyno os yw'n teimlo yr effeithiwyd arno'n uniongyrchol oherwydd methiant i gydymffurfio â'r Cynllun hwn, a dylai wneud hynny drwy ysgrifennu. Os oes angen cymorth sy'n ymwneud ag anabledd i gwyno, bydd y cymorth hwnnw ar gael. Caiff cwynion eu trin fel a ganlyn:

8.3.2 Cwynion Staff

- Dylai staff a gyflogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno cwynion drwy'r drefn gwyno fewnol arferol. Mae hon ar gael yn Llawlyfr Gweithwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn ystyried staff Llysoedd Ynadon a Thribiwnlysoedd a newidiadau eraill sy'n deillio o newid o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol.

- Mae'r drefn hon yn cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cyflogaeth 2002 (Datrys Anghydfod) 2004 ac mae'n berthnasol i bob mater sy'n ymwneud â chyflogaeth gan gynnwys gwahaniaethu a chyfle cyfartal. Gall unrhyw aelod o staff sy'n perthyn i undeb ac sy'n dymuno cwyno ymgynghori 'i gynrychiolydd undeb i gael help a chyngor.

- Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn delio â chwynion gan aelodau'r cyhoedd am ddethol a recriwtio. Caiff y cyhoedd droi at y Comisiynwyr Gwasanaeth Sifil os na chaiff y mater ei drin yn foddhaol yn eu tyb nhw. Mae'r wefan yn: http://www.civilservicecommissioners.gov.uk.

8.3.3 Cwynion y Cyhoedd

- Dylai unigolion a sefydliadau neu gyrff eraill – er enghraifft busnesau mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prynu nwyddau neu wasanaethau ganddynt – gysylltu â'r Is-Adran berthnasol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder maent yn delio â hi fel rheol.

8.3.4 Delio â Chwynion

- Ymchwilir i bob achos mor gyflym ag sy'n bosibl ac fel rheol o fewn tri mis i gael y gŵyn. Wrth ymateb i'r gŵyn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn egluro'r weithdrefn ar gyfer mynd â'r gŵyn ymhellach gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydweithredu'n llawn mewn unrhyw ymchwiliad dilynol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn darparu mynediad i unrhyw ddogfennau perthnasol y gallai fod eu hangen ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgymryd i adolygu ei threfn gwyno yng ngoleuni ei phrofiadau wrth roi'r Cynllun ar waith.

- Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bŵer i orfodi'r dyletswyddau penodol a roddir ar awdurdodau cyhoeddus rhestredig. Os yw'n fodlon nad yw awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio ag unrhyw rai o'i ddyletswyddau penodol, gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyflwyno rhybudd cydymffurfio. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gydymffurfio 'i ddyletswyddau penodol ac i hysbysu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn pen 28 diwrnod ynghylch y camau a gymerwyd ganddo. Os nad yw'r awdurdod wedi cydymffurfio â rhybudd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymhen tri mis, yna gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ofyn i'r llysoedd orchymyn bod yr awdurdod yn cydymffurfio.

- Caiff unigolion, sefydliadau ac eraill hysbysu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol os ydynt yn poeni bod awdurdod cyhoeddus wedi methu cydymffurfio 'i ddyletswyddau penodol. Fodd bynnag byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dymuno bod unrhyw gwynion ynghylch ei chydymffurfiaeth yn cael eu codi gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y lle cyntaf.

- Mae manylion cysylltiadau a gweithdrefnau ar gyfer pob cwyn gan y cyhoedd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: http://www.dca.gov.uk/compleng.htm

Atodiad A: Diffinio Anabledd

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod y diffiniad o anabledd a geir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sef.

- "mae gan unigolyn anabledd at ddiben y Ddeddf hon os oes ganddo ef neu os oes ganddi hi nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar ei allu ef neu ar ei gallu hi i wneud gweithgareddau arferol bywyd bob dydd."

- "Yn y Ddeddf hon mae "unigolyn anabl" yn golygu unigolyn ag anabledd.[12]

At ddibenion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd,

- mae sylweddol yn golygu heb fod yn ddibwys nac yn fân
- mae hirdymor yn golygu bod effaith yr anabledd wedi para neu'n debygol o bara am o leiaf 12 mis (mae rheolau arbennig ar gyfer cyflyrau sy'n ailgodi neu sy'n mynd a dod)
- mae gweithgareddau arferol bywyd bob dydd yn cynnwys pethau beunyddiol megis bwyta, ymolchi, cerdded a mynd i siopa
- rhaid i weithgaredd bob dydd arferol effeithio ar un o'r 'galluoedd' a restrir yn y Ddeddf; mae'r galluoedd yn cynnwys symudedd, medrusrwydd llaw, lleferydd, clyw, golwg a'r cof

Roedd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn cael gwared ar y gofyniad y dylai salwch meddwl fod 'yn adnabyddus yn glinigol' ac yn sicrhau bod pobl â HIV, canser a sglerosis ymledol yn cael eu gwarchod gan y Ddeddf o'r amser pan wneir y diagnosis, yn hytrach nag o'r adeg pan fo'r cyflwr yn cael rhywfaint o effaith niweidiol ar eu gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

[12] Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Rhan 1, 1(1-2)

Atodiad B: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Cynllun Gweithredu Gofyniad Sylfaenol

1. Pobl a Dysgu

Gweithredu:
- Canfod unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n deillio o'r Arolwg Barn Staff a chynhyrchu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

Pryd: Cyn pen 2 flynedd o gyhoeddi er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau â'r arolwg nesaf.

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwyr

Canlyniad: Gwella hyder y staff a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

Gweithredu:
- Gwirio'r gofrestr hyfforddi a datblygu er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol wedi cael ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol yn ystod y 2 flynedd diwethaf.
- Ailgyhoeddi datganiad o gyfrifoldebau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer yr holl staff.

Pryd: Yn flynyddol

Cyfrifoldeb Arweiniol: Rheolwyr

Canlyniad: Mae'n helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon.

Gweithredu:
- Rhoi gwybod i'r holl staff am gyfleoedd hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol a digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth a hwyluso eu presenoldeb.

Pryd: Ar unwaith

Cyfrifoldeb Arweiniol: Rheolwyr

Canlyniad: Mae'n helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cyfle cyfartal.

2. Cwsmeriaid a'r Gymuned

Gweithredu:
- Casglu manylion cyfansoddiad amrywiol y sylfaen cwsmeriaid a defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu gwybodaeth am anghenion cwsmeriaid.
- Rhoi proses ar waith i gasglu gwybodaeth am anghenion cwsmeriaid (yn fewnol ac yn allanol), gwerthuso canlyniadau a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw faterion a ganfyddir.

Pryd: Yn flynyddol

Cyfrifoldeb Arweiniol: Rheolwyr

Canlyniadau:
- Gwella darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well.

Gweithredu:
- Sefydlu grwpiau rhanddeiliaid perthnasol i hwyluso ymgynghori a chynnwys.

Pryd: Ar unwaith ac adolygu'n flynyddol.

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwyr

Canlyniadau:
- Cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn amserol hy ar ddechrau proses.
- Mae'n helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng grwpiau amrywiol a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon.

3. Canlyniadau Perfformiad Allweddol

Gweithredu:
- Gosod amserlen ar gyfer cwblhau asesiadau o'r effaith ar gyfer yr holl swyddogaethau a pholisïau presennol a'r rhai newydd.

Pryd: Ar unwaith ac adolygu'n flynyddol.

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwyr

Canlyniad: Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn anhepgor i'r broses cynllunio busnes.

4. Gwella ein ffordd o weithio

Gweithredu:
- Adolygu pob system monitro i sicrhau bod y monitro'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau adrannol, (gan gynnwys cysondeb defnyddio categorïau Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol) a, phryd bynnag y bydd yn bosibl, ehangu'r monitro i gynnwys ethnigrwydd, rhyw, anabledd, oed, tueddfryd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred, a chyfrifoldebau gofalu.

Pryd: Ar unwaith ac adolygu'n flynyddol.

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwyr

Canlyniad: Darparu tystiolaeth i ddangos sut mae anghenion amrywiol staff a chwsmeriaid yn cael eu diwallu.

Gweithredu:
- Canfod swyddog cyfrifol i gynnal a monitro cynlluniau gweithredu cydraddoldeb.

Pryd: Ar unwaith

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr

Canlyniad: Caiff Camau Gweithredu Cynlluniau Cydraddoldeb eu dilyn ac adroddir ar gynnydd.

Gweithredu:
- Gwerthuso pob polisi a swyddogaeth newydd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar gyfer perthnasedd i bob grŵp amrywiol.

Pryd: ar unwaith – ar ddechrau'r broses

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr

Canlyniad: Caiff penderfyniadau amserol a gwybodus eu gwneud ar asesiadau o'r effaith. Mae grwpiau perthnasol yn ymwneud â'r broses benderfynu.

Gweithredu:
- Cynnal a diweddaru cofnod o bob swyddogaeth a pholisi a pha mor berthnasol ydynt i bob un o'r grwpiau amrywiol.

Pryd: Parhaus (adolygiadau bob hanner blwyddyn o leiaf)

Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr

Canlyniad: Mae gwybodaeth ar gael yn hawdd ar gyfer archwilio a diweddaru'r Cynllun.

Atodiad C: Adborth Grwpiau Ffocws

Roedd y grwpiau ffocws wedi canfod nifer o gamau gweithredu a oedd yn flaenoriaethau: Hygyrchedd, Ymgysylltu â'r Gymuned a Hyfforddiant. Mae manylion sut y rhoddir sylw i'r rhain ym mhrif gorff y Cynllun. Mae'r canlynol yn amlinellu'r camau gweithredu ychwanegol hynny a fydd yn mynd rhagddynt o ganlyniad i'r grwpiau ffocws yn ogystal â'r blaenoriaethau allweddol, ynghyd â'r camau hynny na fyddant yn mynd rhagddynt - naill o ganlyniad i gyfyngiadau cylch gwaith neu gyfyngiadau eraill.

Camau Gweithredu a Nodwyd gan y Grwpiau Ffocws a Fydd yn Mynd Ymlaen

Cododd y grwpiau ffocws rai materion y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi sylw iddynt yn ogystal â'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd. Sef:

- Cael pwynt cyswllt yn holl eiddo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i weithio gyda chwsmeriaid anabl a'r gallu, pan fydd hynny'n briodol, i ymweld â llys ymlaen llaw er mwyn cwrdd â staff i drafod materion ac anghenion penodol. **Ar hyn o bryd mae gan GLIEM Swyddog Cyswllt Anabledd yn ei holl lysoedd. Byddwn yn ymchwilio i weld a yw hyn yn wir ar draws y gwasanaethau ehangach a weithredir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys tribiwnlysoedd, a byddwn yn datblygu posibilrwydd ehangu'r arfer.**

- Darparu gwybodaeth yn fwy cyffredinol mewn fformatau amgen, o ddeunyddiau hysbysebu, i fwy o arwyddion mewn llysoedd a swyddfeydd gyda Braille oddi tano. **Byddwn yn ymchwilio i effeithiolrwydd arwyddion Braille ac addasiadau eraill cyn gwella ein gwaith mynediad a chyfathrebu.**

- Sicrhau bod deunyddiau gan gynnwys ffurflenni, dogfennau a thaflenni ar gael mewn ffontiau mwy, fformatau ac ieithoedd amgen a fersiynau electronig. Osgoi ffontiau bach a dogfennau hir. **Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio cydymffurfio ag arweiniad y Swyddfa Materion Anabledd am gynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch. Bydd yr Is-adran Gyfathrebu yn adolygu polisi ar gyfer yr holl sefydliad i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau hyn.**

- Gellid gwella mynediad i dudalennau gwe, er eu bod eisoes o ansawdd uchel, drwy ychwanegu cyfleusterau i newid maint y ffont a chaniatáu mynediad gweledd uchel. Byddai hefyd yn werthfawr sicrhau bod modd i feddalwedd darllen sgrin ddarllen y wefan drwy sicrhau mai dim ond testun un maint a ddefnyddir. **Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio cydymffurfio ag arweiniad y Swyddfa Materion Anabledd ar gynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, ac rydym yn cydnabod y safonau hygyrchedd gwefan rhyngwladol a amlinellir gan Gonsortiwm y We Fyd Eang. Bydd yr Is-adran Gyfathrebu yn adolygu polisi ar gyfer yr holl sefydliad i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau hyn.**

- Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys: mwy o hyfforddiant i staff, i ynadon ac i farnwriaeth am faterion ac anghenion pobl ag anableddau penodol gan gynnwys dyspracsia, dyslecsia a Syndrom Asperger. Darparu hyfforddiant dilynol a fydd yn edrych ar newidiadau penodol yn y gyfraith. Seminarau a hyfforddiant penodol ar anabledd gyda chyfle i archwilio materion cymdeithasol a ffisegol anabledd, a sut maent yn effeithio ar y system gyfiawnder. **Mae deiliaid swyddi barnwrol wedi'u heithrio o'r dyletswyddau a restrir yn y Cynllun hwn, fodd bynnag mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'r farnwriaeth i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu pan wneir cais amdano. Mae hyn yn disgyn yng nghyfrifoldeb y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.**

- Ystyried pwy sy'n darparu hyfforddiant amrywiaeth hy chwilio am ddarparwyr sydd ag anabledd. **Bydd hyn yn cael ei godi gydag is-adran dysgu a datblygu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w ystyried wrth ddod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant.**

Camau Gweithredu a Nodwyd gan y Grwpiau Ffocws na Fyddant yn Mynd Ymlaen

Roedd y grwpiau ffocws a gynullwyd ar gyfer y Cynllun hwn wedi codi nifer o bryderon na fydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu rhoi sylw iddynt, naill ai oherwydd cyfyngiadau cylch gwaith y Weinyddiaeth, neu oherwydd ni fyddai rhoi sylw iddynt yn cael ei ystyried fel addasiad rhesymol. Pan roedd yn bosibl, cafodd gwybodaeth ei throsglwyddo i adrannau'r llywodraeth a all roi sylw i'r pryderon.

Codwyd y materion canlynol:

- Darparu gwell hyfforddiant a llenyddiaeth ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ar gyfer yr heddlu er mwyn newid agweddau sefydliadol. **Mae hyn y tu allan i gylch gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fodd bynnag mae sylwadau wedi cael eu hanfon ymlaen at y Swyddfa Gartref**.

- Aelod o staff ym mhob llys sy'n gallu defnyddio iaith arwyddion. **Mae cyfleusterau ar waith i ddarparu dehonglwyr iaith arwyddion ar gyfer partïon mewn achosion sifil, teulu a throseddol. Nid oes gofyniad penodol dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd i ddarparu aelod o staff ym mhob llys neu swyddfa fel dehonglydd gan gynnwys iaith arwyddion, fodd bynnag mae gan rai llysoedd a swyddfeydd lleol staff wedi'u hyfforddi i arwyddo.**

- Gallu mynychu llys drwy gyswllt fideo ac eithrio fel tyst neu fel diffynnydd. **Ar hyn o bryd ni fydd hyn yn mynd yn ei flaen oherwydd byddai'r goblygiadau cost yn rhy fawr – ni fyddai'n cael ei ystyried fel addasiad rhesymol.**

Atodiad D: Rhestr o Randdeiliaid Anabledd

Un o elfennau allweddol y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yw sicrhau ein bod yn cynnwys pobl anabl ac yn ymgynghori â nhw. Isod ceir rhestr o'r rheini a gymerodd ran a'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses hon.

Rhestr o'r rheini a gymerodd ran

Cysylltwyd ag aelodau'r grwpiau ffocws drwy grwpiau lleol yn yr ardal lle cynhaliwyd y grwpiau ffocws. Cysylltwyd â nhw a gofynnwyd iddynt a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws.

Grŵp Ffocws Un a gynhaliwyd yn Llundain gydag wyth yn bresennol. O blith y rheini a oedd yn fodlon datgan eu hanabledd, roedd gan gyfranogwyr y cyflyrau canlynol:

- Materion yn ymwneud ag iechyd meddwl
- Awtistiaeth
- Syndrom Usher math 2 (colli synhwyrau deuol)
- Spina Bifida a Hydroceffalws

Grŵp Ffocws Dau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd gydag wyth yn bresennol. O blith y rheini a oedd yn fodlon datgan eu hanabledd, roedd gan gyfranogwyr y cyflyrau canlynol:

- Materion yn ymwneud ag iechyd meddwl
- Arthritis
- Materion yn ymwneud â Symud

Grŵp Ffocws Tri a gynhaliwyd yn Stafford gyda saith yn bresennol. O blith y rheini a oedd yn fodlon datgan eu hanabledd, roedd gan gyfranogwyr y cyflyrau canlynol:

- Dyslecsia
- Nam ar y clyw
- Dyspracsia
- Dau ddefnyddiwr cadair olwyn
- Dau o weithwyr sefydliad nam ar y golwg

Cyfweliadau Ffôn Un i Un gyda 12 o bobl. O blith y rheini a oedd yn fodlon datgan eu hanabledd, roedd gan y bobl a gafodd eu cyfweld y cyflyrau canlynol:

- Iselder
- Anhwylder straen wedi trawma
- Dall

Rhestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid yn rheolaidd. Roedd y rheini yr ymgynghorwyd â nhw ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys:

- Canolfan Gorfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Gwasanaeth Llysoedd EM
- Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai EM
- Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol
- Ymgynghorydd Anabledd Adrannol
- Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
- Anabledd Cymru
- MIND
- Mind-Link
- Yr Ymddiriedolaeth Aids Genedlaethol
- Ffederasiwn Cenedlaethol y Deillion
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
- Rhwydweithiau Staff

Rhan annatod o'n cynlluniau gweithredu yn y dyfodol yw sicrhau ein bod yn parhau i gynnwys ac ymgynghori â phobl anabl i'n helpu ni i barhau i wella'r Cynllun. Rhan o'n gwaith parhaus fydd mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl anabl sydd wedi cyfrannu yn ogystal â phobl newydd er mwyn mynd â'r camau gweithredu a nodwyd rhagddynt.

Atodiad E: Asiantaethau, Swyddfeydd Cysylltiedig, Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a Chyrff eraill, a'u Dyletswyddau Statudol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys meysydd busnes gwahanol, gyda rhai yn gweithio'n annibynnol ac eraill yn gweithio'n uniongyrchol, caiff y rhain eu galw yn Asiantaethau, yn Swyddfeydd Cysylltiedig ac yn Gyrff Cyhoeddus Anadrannol.

Mae gan feysydd busnes gwahanol ddyletswyddau gwahanol dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd fel yr amlinellir gan Reoliadau 2005. Mae'r adran hon yn rhestru a yw pob maes unigol yn rhwym wrth y dyletswyddau cyffredinol neu benodol. Er y bydd gan bob swyddfa gyfrifoldeb i gyfrannu at ddyletswydd benodol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Asiantaethau

Sefydliad cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau llywodraeth ar gyfer llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Cymru neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yw Asiantaeth Weithredol. Nid yw asiantaeth yn pennu'r polisi sy'n ofynnol i gyflawni ei swyddogaethau - yr adran sy'n goruchwylio'r asiantaeth sy'n pennu'r rhain. Prif weithredwyr sy'n gyfrifol yn bersonol am weithrediadau beunyddiol sy'n arwain yr asiantaethau. Fel arfer maent yn uniongyrchol atebol i'r gweinidog cyfrifol am faterion polisi sydd, yn ei dro, yn atebol i'r Senedd. Yng nghyswllt materion gweinyddol a materion sy'n ymwneud ag adnoddau, maent yn adrodd yn uniongyrchol i Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Enw'r Sefydliad	Disgrifiad	Dyletswyddau Statudol
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM)	Asiantaethau Weithredol. Rheoli Gweinyddiaeth y Llysoedd yng Nghymru a Lloegr.	Cyffredinol
Cofrestrfa Dir EM	Adran heb Weinidog ac Asiantaeth Weithredol Cronfa Fasnachu. Prif swyddogaeth statudol y Gofrestrfa Dir yw cadw cofrestr teitlau tir rhydd-ddaliad a thir ar brydles ledled Cymru a Lloegr.	Cyffredinol
Gwasanaeth Carchardai EM	Asiantaeth Weithredol sy'n cadw'r rheini a draddodir gan y llysoedd mewn caethiwed.	Cyffredinol
Yr Archifau Cenedlaethol	Adran heb Weinidog ac Asiantaeth Weithredol. Mae'n gosod safonau ac yn cefnogi arloesedd mewn rheoli gwybodaeth a chofnodion ledled y DU.	Cyffredinol

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	Asiantaethau Weithredol. Mae'r Swyddfa'n hyrwyddo ac yn gwarchod lles ariannol a chymdeithasol pobl ag anallu meddyliol.	Cyffredinol
Gwasanaeth Tribiwnlysoedd	Asiantaeth Weithredol sy'n darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol i brif dribiwnlysoedd llywodraeth ganolog.	Cyffredinol

Swyddfeydd Cysylltiedig

Caiff Swyddfa Gysylltiedig ei chyllido gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ond caiff ei rhedeg ar wahân i'w swyddogaethau pencadlys.

Enw'r Sefydliad	**Disgrifiad**	**Dyletswydd Statudol**
Asesydd lawndal ac Achosion o Gamweinyddu Cyfiawnder	Corff annibynnol. Ei nod yw cael cydbwysedd gwell gyda'r ffordd caiff dioddefwyr troseddau eu trin.	Cyffredinol
Cyfarwyddiaeth Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr	Cyfarwyddiaeth annibynnol arall. Mae'n cynnwys y Swyddfa Farnwrol; y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol a'r Swyddfa Cyfathrebu Barnwrol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod yr Arglwydd Brif Ustus, y Bwrdd Gweithredol Barnwrol, y Cyngor Barnwyr a'r barnwyr yn cael eu cefnogi yn eu cyfrifoldebau, eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor llawn, bod eu gweithgareddau'n cael eu cydlynu a bod polisi'n cael ei ddatblygu a'i weithredu.	Cyffredinol
Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM	Deiliaid swyddi/swyddfeydd statudol annibynnol sy'n arolygu ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Arglwydd Ganghellor am y system sy'n gefn i fusnes y llysoedd a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y llysoedd hynny.	Cyffredinol
Arolygiaeth Carchardai EM	Mae'n adrodd ar amodau a thriniaeth y rheini sydd mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau troi mewnfudwyr allan.	Cyffredinol
Arolygiaeth Prawf EM	Adrodd am effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc a anelir at leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd.	Cyffredinol
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol (GCRhT)	Deiliaid swyddi/swyddfeydd statudol annibynnol. Mae'r Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol yn ymchwilio i gwynion am y broses penodiadau barnwrol a delio â materion sy'n ymwneud â disgyblaeth neu ymddygiad barnwrol.	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Disgrifiad	Dyletswydd Statudol
Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT)	Mae Pencadlys y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Caiff darparu gwasanaethau carchardai a phrawf ei gydlynu drwy naw ardal ranbarthol a ledled Cymru. Fel swyddfa gysylltiedig mae'n rhwym wrth y ddyletswydd gyffredinol.	Cyffredinol
Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol	Corff â thair elfen iddi sy'n cefnogi pob asiantaeth cyfiawnder troseddol wrth iddynt gydweithio i ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd. Mae'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol yn adrodd i Weinidogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol. Fel swyddfa gysylltiedig mae'n rhwym wrth y ddyletswydd gyffredinol.	Cyffredinol
Swyddfa'r Pwyllgor Barnwrol	Mae Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor yn rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a dyma'r llys apêl olaf ar gyfer tiriogaethau'r DU dramor a thiriogaethau dibynnol y Goron, ac ar gyfer y gwledydd Cymanwlad hynny sydd wedi cadw'r apêl i Ei Mawrhydi mewn Cyngor neu, yn achos Gweriniaethau, y Pwyllgor Barnwrol.	Dyletswydd Cyflogaeth
Y Swyddfa Cwynion Barnwrol	Swyddfeydd annibynnol eraill. Sefydlwyd y Swyddfa Cwynion Barnwrol i gynghori ac i gefnogi'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn eu cyfrifoldebau dros y system cwyno a disgyblu.	Cyffredinol
Swyddfa'r Barnwr Adfocad Cyffredinol	Swyddfa Annibynnol. Y prif ddyletswyddau yw cyflenwi barnwyr adfocad ar gyfer y Llysoedd Milwrol a'r Llysoedd Apêl Diannod, ynadon ar gyfer y Llysoedd Sifiliaid Sefydlog a swyddogion barnwrol i wrando ceisiadau caethiwed.	Cyffredinol
Swyddfa Comisiynydd Cwynion y Gwasanaethau Cyfreithiol	Swyddfa Statudol Annibynnol. Mae Swyddfa Comisiynydd Cwynion y Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio gyda defnyddwyr i wella sut mae Cymdeithas y Gyfraith yn delio â chwynion am dwrneiod yng Nghymru a Lloegr.	Cyffredinol
Swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol	Deiliaid swyddi/swyddfeydd statudol annibynnol. Mae'n goruchwylio'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion am gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Disgrifiad	Dyletswydd Statudol
Ysgrifenyddiaeth y Cyfrin Gyngor	Mae'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n gyfrifol am y trefniadau sy'n arwain at wneud pob Proclamasiwn a Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ac ar gyfer rhai defodau sy'n gysylltiedig â newidiadau Gweinidogol.	Dyletswydd Cyflogaeth
Swyddfeydd Cronfeydd y Llys, y Twrnai Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Gwladol	Deiliaid swyddi/swyddfeydd statudol annibynnol. Mae Swyddfa Cronfeydd y Llys yn gweinyddu arian sy'n cael ei dalu 'i'r llys' o ganlyniad i achosion sifil mewn llysoedd yng Nghymru a Lloegr.	Cyffredinol
Ombwdsmon Y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf	Ombwdsmon. Mae'n ymchwilio i gwynion gan garcharorion a'r rheini sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf, neu'r rheini yr ysgrifennwyd adroddiadau amdanynt.	Cyffredinol
Swyddfa'r Alban	Swyddfa sy'n ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am reoli'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.	Cyffredinol
Swyddfa Cymru	Swyddfa sy'n ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am reoli'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.	Cyffredinol

Cyrff Cyhoeddus Anadrannol

Corff cyhoeddus rhanbarthol neu genedlaethol yw corff cyhoeddus anadrannol, sy'n gweithio'n annibynnol ar y gweinidogion y maent yn atebol iddynt.

- Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol - cyrff gyda swyddogaethau gweithredol, gweinyddol, masnachol neu reolaethol. Maent yn ymgymryd â swyddogaethau penodol o fewn fframwaith y llywodraeth ond mae maint yr annibyniaeth weithredol yn amrywio. Maent yn cyflogi eu staff eu hunain a dyrennir eu cyllidebau eu hunain iddynt.
- Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol – maent yn darparu cyngor annibynnol ac arbenigol i weinidogion am bynciau o ddiddordeb penodol. Fel rheol nid oes ganddynt staff ond cânt eu cefnogi gan staff yn yr adran sy'n eu noddi. Fel rheol nid oes ganddynt eu cyllideb eu hunain, gan fod y costau a gyfyd yn dod dan wariant yr adran.
- Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Tribiwnlys – mae ganddynt awdurdodaeth mewn maes cyfraith arbenigol. Fel rheol cânt eu cefnogi

gan staff yn yr adran sy'n eu noddi ac nid oes ganddynt eu cyllidebau eu hunain.

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol yn ei chyfanrwydd gyda'r bwriad o'i gwneud yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon. Disodlodd y Cyngor Tribiwnlysoedd ar 1 Tachwedd 2007.	Cyffredinol
Pwyllgorau Ymgynghorol Comisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Dewis ymgeiswyr i'r Arglwydd Ganghellor eu hystyried sydd â'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer eu penodi yn Gomisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm ar gyfer Cymru a Lloegr.	Cyffredinol
Pwyllgorau Ymgynghorol Comisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm (Gogledd Iwerddon)	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i Wasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon.	Cyffredinol
Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch yng Nghymru a Lloegr	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cynghori'r Arglwydd Ganghellor ar benodi Ynadon Heddwch yng Nghymru a Lloegr.	Cyffredinol
Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch yn Sir Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cynghori Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn (Canghellor y Trysorlys o 1 Ebrill 2005 ymlaen) ar benodi Ynadon Heddwch yn Sir Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi.	Cyffredinol
Cyngor Ymgynghorol ar Lawysgrifau Hanesyddol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i'r Archifau Cenedlaethol. Cynghori'r Arglwydd Ganghellor ar faterion sy'n ymwneud â chofnodion ac archifau yn y DU ac yn benodol yng Nghymru a Lloegr yn enwedig mynediad at gofnodion hanesyddol a gwarchod cofnodion a llawysgrifau.	Cyffredinol
Cyngor Ymgynghorol ar Gofnodion ac Archifau Cenedlaethol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i'r Archifau Cenedlaethol.	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
Cyngor Ymgynghorol ar Gofnodion Cyhoeddus	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i'r Archifau Cenedlaethol.	Cyffredinol
Panel Ymgynghorol ar Wybodaeth y Sector Cyhoeddus	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i'r Archifau Cenedlaethol.	Cyffredinol
Y Comisiwn Ffiniau, Lloegr	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Adolygu cynrychiolaeth Lloegr yn Nhŷ'r Cyffredin.	Cyffredinol
Y Comisiwn Ffiniau, yr Alban	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol i Swyddfa'r Alban. Adolygu Ffiniau Etholaethau Seneddol yn yr Alban a ffiniau etholaethau Senedd yr Alban.	Cyffredinol
Y Comisiwn Ffiniau, Cymru	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a chyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol adroddiadau gydag argymhellion ar gyfer etholaethau ac ar gyfer cynrychioli'r rhanbarthau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.	Cyffredinol
Y Cyngor Cyfiawnder Sifil	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cyfeirio. Adolygu'r System Cyfiawnder Sifil, ystyried sut mae gwneud y system yn fwy hygyrch, teg ac effeithlon a chyflwyno argymhellion.	Cyffredinol
Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cafodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ei greu yn rhinwedd adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997 (fel y'i diwygiwyd gan adran 83 Deddf Llysoedd 2003) i wneud rheolau llys ar gyfer Is-adran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Llysoedd Sirol.	Eithriwyd
Panel Achredu'r Gwasanaethau Cywiro	Mae'r Panel yn ystyried ceisiadau gan y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ar gyfer achrediad, arweiniad ac adolygiad ac mae'n darparu cyngor ar faterion archwilio y bydd y naill Wasanaeth a'r llall yn eu cyflwyno iddo.	Cyffredinol
Byrddau'r Llysoedd	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol sy'n craffu, yn adolygu ac yn gwneud argymhellion am y modd mae'r llysoedd yn cael eu rhedeg yn eu hardal ac ystyried cynlluniau busnes drafft a therfynol.	Cyffredinol
Comisiwn Adolygu	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Corff	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
Achosion Troseddol	cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i adolygu achosion posibl o gamweinyddu cyfiawnder a phenderfynu a ddylid eu cyfeirio i lys apêl.	
Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Nod yr Awdurdod yw cefnogi dioddefwyr troseddau treisgar drwy: ddarparu gwasanaeth effeithlon a theg i ymgeiswyr gan ymchwilio'n drylwyr i bob hawliad am iawndal am anafiadau troseddol gan drin ymgeiswyr â pharch ac â chwrteisi bob amser.	Cyffredinol
Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn gweithredu fel un fforwm ar gyfer adolygu gweithdrefnau llysoedd troseddol a datblygu rheolau modern a fynegir yn syml.	Eithriwyd
Pwyllgor Rheolau Llys y Goron	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Nid yw Pwyllgor Rheolau Llys y Goron yn gwneud rheolau mwyach ar gyfer yr awdurdodaeth droseddol, gan fod adran 69 Deddf Llysoedd 2003 wedi sefydlu'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i wneud rheolau ar gyfer pob llys troseddol, hyd at a chan gynnwys y Llys Apêl (Is-adran Droseddol). Mae Pwyllgor Rheolau Llys y Goron yn awr yn gwneud rheolau arferion a gweithdrefnau, dan adran 84(1) Deddf y Goruchel Lys 1981, ar gyfer nifer fach o achosion heb fod yn droseddol a gaiff eu trin yn Llys y Goron.	Eithriwyd
Y Cyngor Cyfiawnder Teulu	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Hwyluso darparu canlyniadau gwell a chynt ar gyfer teuluoedd a phlant sy'n defnyddio'r system cyfiawnder teulu.	Cyffredinol
Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teuluol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Sefydlwyd gan Ddeddf Llysoedd 2003, mae'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teuluol yn ceisio cynhyrchu un gyfres gydlynol o reolau a fynegir yn syml i lywodraethu arferion a gweithdrefnau mewn achosion teulu yn yr Uchel Lys, y Llysoedd Dirol a'r Llysoedd Ynadon. Bydd y pwyllgor yn ymgynghori fel y tybia sy'n briodol cyn gwneud rheolau o'r fath.	Eithriwyd
Y Comisiwn Cyffredinol ar Dreth Incwm	Corff Cyhoeddus Anadrannol Tribiwnlys. Penderfynu neu ohirio apeliadau yn erbyn asesiadau treth yng nghyswllt amrywiaeth o faterion gan gynnwys Treth Incwm, Treth	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
	Corfforaeth, Treth Enillion Cyfalaf, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Treth Stamp, Treth Tir a Thâl Salwch Statudol.	
Byrddau Monitro Annibynnol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Fe'u penodwyd dan Ddeddf Ansolfedd 1986 er mwyn i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â nhw cyn gwneud unrhyw reolau dan adran rheolau ansolfedd cwmni neu adran rheolau ansolfedd unigolyn y Ddeddf Ansolfedd. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau'r proffesiynau cyfreithiol a chyfrifyddu.	Cyffredinol
Pwyllgor Rheolau Ansolfedd	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Penodir y Pwyllgor dan adran 413 Deddf Ansolfedd 1986 er mwyn i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori ag ef cyn gwneud unrhyw reolau dan adran 411 (rheolau ansolfedd cwmni) neu adran 412 (rheolau ansolfedd unigolyn) y Ddeddf Ansolfedd. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau'r proffesiynau cyfreithiol a chyfrifyddu.	Cyffredinol
Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol.	Cyffredinol a Phenodol
Pwyllgor Rheolau Cofrestru Tir	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cynghori a chynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor wrth lunio neu ddiwygio rheolau at y dibenion amrywiol y cyfeirir atynt yn adrannau 102 a 127 Deddf Cofrestru Tir 2002. Newidiwyd cyfansoddiad y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2002 dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.	Cyffredinol
Comisiwn y Gyfraith	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Adolygu'r gyfraith a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio (Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965).	Cyffredinol
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Ar ran y Llywodraeth mae'r comisiwn yn gyfrifol am ddau gynllun: y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sy'n cyllido gwasanaethau cyngor a chyfreithiol sifil, canfod anghenion sy'n flaenoriaeth a heb eu diwallu, datblygu cyflenwyr a gwasanaethau arloesol i ddiwallu'r anghenion hynny; a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol sy'n talu am wasanaethau amddiffyn ar gyfer pobl sydd ynghlwm wrth ymchwiliadau neu	Cyffredinol a Phenodol

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
	achosion troseddol.	
Panel Ymgynghorol Gwasanaethau Cyfreithiol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae'r panel yn helpu i gynnal a datblygu safonau yn addysg, hyfforddiant ac ymddygiad unigolion sy'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol ac mae'n cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol.	Cyffredinol
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Goruchwylio a gorfodi Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Preifatrwydd a Masnachol Electronig 2003.	Cyffredinol
Comisiwn Ffiniau Seneddol i Loegr	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn mynnu bod y Comisiwn yn adolygu etholaethau seneddol Lloegr yn gyson a chynnal adolygiad cyffredinol bob 8 i 12 mlynedd o bob etholaeth yn Lloegr a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn dangos yr etholaethau maent yn eu hargymell.	Cyffredinol
Y Bwrdd Parôl	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Mae'r Bwrdd Parôl yn gwarchod y cyhoedd drwy wneud asesiadau risg am garcharorion i benderfynu pwy ellir eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned a phwy sy'n rhaid iddynt aros mewn caethiwed neu ddychwelyd i gaethiwed.	Cyffredinol
Y Panel Cynghori ar Ddedfrydu	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae'n darparu cyngor i'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu.	Cyffredinol
Y Cyngor Canllawiau Dedfrydu	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Cyhoeddi canllawiau dedfrydu i helpu'r holl lysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac i hyrwyddo dedfrydu cyson.	Cyffredinol
Bwrdd Buddsoddiadau Strategol	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Mae'n cynghori ynghylch penodi rheolwyr allanol i fuddsoddi arian cleientiaid sydd dan ofal y Swyddfa Gwarcheidiaeth Gyhoeddus, y Cyfreithiwr Swyddogol a Swyddfa'r Ymddiriedolwr Gwladol a Gwasanaeth Llysoedd EM. Mae'r corff yn monitro perfformiad yn ôl meincnodau diwydiant sydd wedi ennill eu plwyf.	Cyffredinol
Panel Ymgynghorol Dioddefwyr	Corff Cyhoeddus Anadrannol Ymgynghorol. Gosod dioddefwyr wrth galon y System Cyfiawnder Troseddol.	Cyffredinol

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol. Mae'n goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr i atal plant a phobl ifanc dan 18 oed rhag troseddu ac aildroseddu, a sicrhau bod caethiwed iddynt yn ddiogel ac yn rhoi sylw i'r hyn sy'n achosi eu troseddu. Sylwer: Ym mis Tachwedd 2007, cafodd yr Uned Cyfiawnder Ieuenctid ei chreu yn dilyn newidiadau yn y llywodraeth a chreu'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Caiff yr uned ei chyllido ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.	Cyffredinol a Phenodol

Gogledd Iwerddon

Enw'r Sefydliad	Yn gyfrifol am	Dyletswydd Statudol
Gwasanaeth Llys Gogledd Iwerddon	Cafodd Gwasanaeth Llys Gogledd Iwerddon (y Gwasanaeth Llys) ei sefydlu yn 1979 gan Ddeddf Barweiniaeth (Gogledd Iwerddon) 1978, fel gwasanaeth sifil ar wahân yng Ngogledd Iwerddon. Dyma adran yr Arglwydd Ganghellor yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n rhwym wrth y dyletswyddau cyffredinol a phenodol.	Cyffredinol a Phenodol
Comisiwn Penodiadau Barnwrol Gogledd Iwerddon	Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol Gwasanaeth Llys Gogledd Iwerddon. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i gyflwyno system newydd ar gyfer penodi aelodau o'r farnwriaeth a thribiwnlysoedd.	Cyffredinol a Phenodol
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon	Hyrwyddo mynediad teg a chyfartal yng Ngogledd Iwerddon o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol a gyllidir yn gyhoeddus.	Cyffredinol a Phenodol

Gwasanaethau Prawf

Enw'r Sefydliad	Disgrifiad	Dyletswydd Statudol
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rhan o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ac mae'r 42 Bwrdd Ardal Prawf unigol yn Gyrff Corfforaethol a sefydlir gan statud. Lleihau aildroseddu ac amddiffyn y gymuned rhag niwed.	Cyffredinol a Phenodol

Atodiad F: Geirfa

GCRhT	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
GLlEM	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
PDF	Fformat Dogfen Gludadwy

Mae copïau o'r Cynllun hwn ar gael gan equalityschemes@justice.gsi.gov.uk ac ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Mae copïau ar gael mewn print a fformat Hawdd ei Ddarllen. Caiff fformatau amgen eraill eu hystyried ar gais oddi wrth:

Emma Ferdinand
Equality, Diversity and Human Rights Division
Pillar 2.21, 2nd Floor
Ministry of Justice
Selborne House
54 Victoria Street
London SW1E 6QW
Ffôn 020 7210 8058
Ffôn 0113-251-1225